# ECO'R WYDDFA

**RHIF 110**
**NADOLIG 1985**
**IONAWR 1986**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*



**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**GOLYGYDD CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS:** Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)
**FFOTOGRAFFYDD:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glarafon (Llanberis 872275)
**DEINIOLEN:** W.O.Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS:** Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**LLANRUG:** Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)
**NANT PERIS:** Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis 870 733).
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU:** Edward Elias, 21 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)


**Y RHIFYN NESAF**

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**IONAWR 30, 1986**

Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH**
**IONAWR 21**
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## LLYTHYR AGORED AT RIENI CYMRU AR RAN PWYLLGOR YMGYNGHOROL U.C.A.C.

*Annwyl Olygydd,*

*Credwn fod y gofid a fynegwyd gan Gymdeithas Rhieni Athrawon Cymru ynglŷn â'r frwydr hir a chwerw yn ein hysgolion yn haeddu ystyriaeth ddwys. Yn hollol briodol, mae'r Gymdeithas yn tynnu sylw at y ffaith i brinder arian ac adnoddau cyn 1985 gynddeiriogi'r proffesiwn cyn i'r athrawon geisio adfer ychydig o'r statws a'r urddas a gollwyd wrth hawlio gwobr teilyngach na wnâi cynnig sarhaus a dirmygus gwreiddiol y Llywodraeth o 3 y cant.*

*Er pan agorodd James Callaghan Y Ddadl Fawr ar Addysg yn Rhydychen ym 1977, beiwyd yr ysgolion, yn annheg gan amlaf, am lawer iawn o ffaeleddau cymdeithas, gan gynnwys Hwliganiaeth Pêl-droed a'r Camddefnydd o Gyffuriau. Yn wir, fel y dengys ymateb athrawon Poundswick yn glir yn helynt y Graffiti, fe saif y proffesiwn dros Drefn a Disgyblaeth Gadarn. 'Roedd yn ddadlennol i amryw, mae'n siŵr, ond, ysywaeth, nid i'n cydweithwyr, i glywed y bobl ifainc a waharddwyd o'r ysgol yn datgan eu syndod ynglŷn â llymder y gosb. Ni waharddwyd disgyblion eraill, meddent, er iddynt fygwth, sarhau a hyd yn oed ymosod ar athrawon. Faint o raddedigion deallus a ddymunai weithio o dan y fath amgylchiadau am £9,597 y flwyddyn ar frig Graddfa 2; uchafswm 66 y cant o athrawon heddiw?*

*Mae amodau gwaith athrawon a disgybliaid hefyd wedi dirywio o'u hamddifadu o adnoddau yn sgîl toriadau creulon gan y Llywodraeth. Wrth i gosb gorfforol ddiflannu'n raddol, bydd angen rhagor o athrawon a chyfaddasiad arbenigol. Nis cafwyd. Disgwylir i athrawon reoli nid yn unig disgyblion trafferthus (sylwer yr oedran rhai o'r derfysgwyr yng nghanol y dinasoedd) ond hefyd i'w haddysgu. Nid oes ar gael i ni dariannau a phastynnau, ac mae athro ifanc gyda gradd anghydedd sy'n ceisio dygymod â'r fath ddisgyblion yn ennill tipyn llai na heddwas o'r un oedran.*

*Mae'r toriadau wedi effeithio'n andwyol ar bob athro a disgybl. Er enghraifft, gorfodwyd Cyngor Sir Dyfed docio £9m o'i gyllideb addysg ers 1979. Adlewyrchir yr effeithiau i raddau gwahanol drwy Gymru benbaladr gan brinder a hynafiaeth y llyfrau a'r offer, athrawon sy'n dysgu pynciau nad ydynt wedi arbenigo ynddynt, fel yr amlygir yn Adroddiadau Arolygwyr ei Mawrhydi, ac adeiladau yn adfeilio. Protestiodd Undebau'r Athrawon yn groch ac yn groyw yn erbyn y fath bolisïau cyn dechrau yr ymgyrch bresennol. 'Roedd ysbryd y proffesiwn ar drai isel iawn oblegid y teimlid bod addysg yn gyffredinol yn cael ei thanseilio.*

*Mae hynt yr anghydfod eleni wedi cadarnhau ein hamheuon dyfnaf. Mae agwedd y Llywodraeth bellach yn hollol eglur. Yn ddiweddar cyhoeddodd y Canghellor yn ei Adroddiad mis Hydref, y byddai mwy o arian ar gael ar gyfer Tai, Y Gwasanaeth Iechyd a Ffyrdd. Ni chrybwyllwyd addysg. Yn gynharach eleni, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg — Ie, Addysg, mai blaenoriaethau'r Llywodraeth oedd Amddiffyn, Cyfraith a Threfn, Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Naw wfft i'ch plant a'r athrawon dirwasgedig.*

*Serch hynny, ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth wedi gollwng toreth o gynlluniau newydd am ben yr ysgolion megis T.A.G.A. (C.P.V.E.), C.A.D.A.G. (T.V.E.I.), T.G.A.U. (G.C.S.E.) ac o bosib Lefel A a S. Detholwyd rhai ysgolion i elwa, dros dro fwy na thebyg, o gynlluniau C.A.D.A.G. (T.V.E.I). Fel arall gadawyd yr ysgolion i ddygymod â'r sefyllfa heb unrhyw adnoddau ychwanegol na chyrsiau hyfforddi trwyadl i gynorthwyo athrawon i addasu ar gyfer y cynlluniau newydd hyn. Gan fod rhai o'r cynlluniau hyn yn cael eu cyflwyno heb arian digonol, mae'n amlwg bod rhaid i bynciau eraill ddioddef. Felly y bygythir Lladin, rhai ieithoedd modern a hyd yn oed cerddoriaeth. O dan amgylchiadau arferol, byddai athrawon yn croesawu'r cyrsiau newydd a anelir at y disgyblion llai academaidd. Ond mewn gwirionedd, fe'u gwthir ar broffesiwn digalon, lluddedig sydd wedi'i ddibrisio gan Gymdeithas.*

*Ein dadl ni yw y câi addysg ei thanseilio'n ddybryd cyn yr anghydfod presennol gan ddatblygiadau cymdeithasol y tu hwnt i reolaeth athrawon, a chan agwedd elyniaethus ac esgeulustod y Llywodraeth. Gan fod cyflogaeth graddedigion ar ei fyny, hoffem danlinellu peryglon y sefyllfa i rieni Cymru. Oni chawn godiad cyflog sylweddol yn awr a sicrhau amodau gwaith derbyniol yn y dyfodol, ni ddymuna ond masocistiaid hyddysg gyda chymwysterau uchel ddysgu yn ein hysgolion erbyn diwedd yr wythdegau. Gellid dadlau y byddai Corff Cymreig i oruchwylio cyflogau ac amodau cyflogaeth athrawon yn syniad amgenach na'r gyfundrefn bresennol. Yn y cyfamser, anogwn rieni Cymru i bwyso ar Aelodau Seneddol, Cynghorwyr a Darpar-Ymgeiswyr Ceidwadol ac i herio safbwynt y Llywodraeth yn ystod yr anghydfod hwn sy'n debygol o barhau ym 1986, neu, ofnwn nad yw rhagolygon addysg yn ddu ond yn hytrach yn anobeithiol.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*J. Lynn Davies, Llywydd*
*Gwylon Phillips, Is-lywydd*
*J. Wyn Thomas, Cyn-lywydd*
*Ar ran Pwyllgor Ymgynghorol*
*Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru*

## LLYTHYR AGORED I'R WASG YNG NGHYMRU AR RAN GRŴP STATWS Y GYMDEITHAS

*Annwyl Syr-Madam.*

*Mae Grŵp Statws yr Iaith Gymraeg yn llythyru â phrif swyddfeydd y siopau cadwyn sydd â changhennau yng Nghymru ar hyn o bryd. Yr ydym hefyd yn ysgrifennu at y prif dai bwyta i bwyso arnynt i fabwysiadu polisi dwyieithog llawn gan awgrymu eu bod yn dilyn y canllawiau a ganlyn:*

1. *Sicrhau fod staff Cymraeg ar gael i ymdrin â'r cyhoedd yn arbennig yn yr ardaloedd Cymraeg. Credwn y dylid rhyddhau staff i fynd ar gyrsiau dysgu Cymraeg a hynny ar gyflog llawn.*
2. *Gohebu yn ddwyieithog neu yn y Gymraeg gyda chwsmeriaid.*
3. *Sicrhau fod pob arwydd, hysbyseb a phoster yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.*
4. *Hysbysebu yn y Gymraeg mewn cylchgronau, papurau newydd ac ar y teledu.*
5. *Os yw'r siopau hyn yn gyfrifol am gynhyrchu eu nwyddau eu hunain, e.e., Spar a'r Co-Op, yna dylid sicrhau fod y wybodaeth arnynt yn ddwyieithog.*

*Credwn y dylai'r Gymraeg fod mor amlwg â'r Saesneg ym mhob man cyhoeddus yng Nghymru. Galwn arnoch fel Cymry Cymraeg i bwyso ar y siopau Cadwyn ac ati i fabwysiadu polisi dwyieithog. Mae gan Gymdeithas yr Iaith restr o brif swyddfeydd deg ar hugain o siopau cadwyn yn ei swyddfa yn Aberystwyth. Beth am gefnogi'r ymgyrch hon trwy drefnu cylchlythyr â nhw? Anfonwch i'r cyfeiriad isod am restr heddiw.*

*Dewch inni wneud yn siŵr y bydd 1986 yn flwyddyn newydd dda i'r iaith Gymraeg. Gan gofio ar yr un pryd mai Deddf Iaith Newydd a rydd statws cyflawn i'r Gymraeg — dyma'r unig ateb delfrydol yn y pen draw.*

*Diolch am eich cefnogaeth,*
*Dafydd Morgan Lewis,*
*Arweinydd y Grŵp Statws,*
*5, Maes Albert,*
*Aberystwyth,*
*Dyfed*
*(0970) 4501*

## UNDEB Y CYMRY AR WASGAR

*Annwyl Olygydd,*

*Ar gais nifer o gymdeithasau Cymraeg yn Lloegr a'r Alban, mae Undeb y Cymry ar Wasgar yn llunio rhestr o ddiddanwyr a siaradwyr o Gymru.*

*Mae galw arbennig yn y Cymdeithasau am siaradwyr diddorol, yn enwedig y sawl a all sôn yn ddifyr am eu galwedigaeth, pobl gymwys i gynnal oedfa yn Gymraeg, diddanwyr a all gynnal noson ddwyieithog (Cymraeg-Saesneg), partïon canu ac adrodd, grwpiau a thelynorion. Mewn gair — 'SiwperCymry'!*

*Byddai'r Undeb yn ddiolchgar dros ben i dderbyn manylion oddi wrth unrhyw un o ddarllenwyr Pethe Penllyn a hoffai ymuno yn y cynllun hwn: noder enw, cyfeiriad, rhif ffôn, a thestun darlith neu math diddanwch, os gwelwch yn dda ac anfon y manylion at:*
*Eurgain Fowler (Ysgrifennydd Cynorthwyol)*
*Hafod Heli*
*Borth*
*Dyfed*
*SY24 5JE*

## LLYTHYRAU parhad

**CYNLLUNIO Â'R IAITH GYMRAEG – CYNNWYS LLYTHYR AGORED AT NICHOLAS EDWARDS, YN Y SWYDDFA GYMREIG**

Ym mis Tachwedd 1982 trefnwyd Cynhadledd gyhoeddus gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg yn Llangernyw Clwyd ar 'Cynllunio a'r iaith Gymraeg'. Roedd hyn yn fan cychwyn i gyfres o gyfarfodydd ac o ddogfennau ar y cysylltiad rhwng cynllunio a'r iaith Gymraeg a'r angen i roi statws cynllunio i'r iaith Gymraeg.

Yn ddiweddarach cafwyd ymateb cadarnhaol oddi wrth nifer o gynghorau a oedd yn datgan eu bwriad i baratoi adroddiad pwnc neu gynllun iaith ar yr iaith Gymraeg. Ym mis Mawrth 1984 cafwyd cyfarfod gyda'r Swyddfa Gymreig i drafod yr angen am statws gynllunio i'r iaith Gymraeg nid yn unig i ddiogelu cymunedau Cymraeg eu hiaith ond fel modd i hybu ac i hyrwyddo'r Gymraeg. Anfonwyd llythyr atom yn dilyn y cyfarfod yma – yr unig ateb ysgrifenedig i rai o'r cwestiynau a roddwyd gerbron y Swyddfa Gymreig.

Noda'r llythyr yma y pwynt pwysig canlynol:

"Wrth baratoi ar gyfer newid neu diwygio cynlluniau fframwaith a gosod rhai eraill yn eu lle mae'n agored i Awdurdodau Sirol felly gynhyrchu 'adroddiad pwnc' ar unrhyw destun a ddymunent, gan gynnwys yr iaith Gymraeg ... Yn yr un modd gall awdurdodau cynllunio dosbarth wneud hynny mewn perthynas â chynlluniau ardal."

Ym mis Tachwedd eleni gwelwyd ffrwyth gyntaf gweithgarwch Cymdeithas yr Iaith yn y maes yma gyda Chyngor Dosbarth Colwyn yn derbyn Adroddiad Pwnc ar yr Iaith Gymraeg a baratowyd gan yr Adran Gynllunio gan gynnwys y paragraff canlynol:

"Ni welir unrhyw reswm na ddylai'r Gymraeg cael statws cynllunio ar y telerau canlynol – 'Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried fel un o'r elfennau cymdeithasol a diwylliannol a bydd yn cael ei hystyried wrth benderfynu ar bolisi cynllunio ac wrth wneud penderfyniad ar geisiadau cynllunio."

Yn ogystal â hyn, penderfynodd Cyngor Dosbarth Caerfyrddin ystyried yr iaith Gymraeg yn fanwl wrth gynllunio yn y dyfodol.

Mae yna gyfrifoldeb moesol ar y Swyddfa Gymreig i sicrhau nad ydynt yn tanseilio penderfyniadau awdurdodau lleol yn enwedig o gofio geiriad ei llythyr atom ym 1984. Galwn ar y Swyddfa Gymreig i sicrhau nad ydynt yn wyrdroi penderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Cynllunio ar sail effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg. Yn bellach gofynnwn iddynt i annog awdurdodau cynllunio ledled Cymru i roi statws Cynllunio i'r iaith Gymraeg. Yn yr un modd mae yna le i ofyn i'r Swyddfa Gymreig baratoi adroddiad cynhwysfawr ar yr iaith Gymraeg ac fel sylfaen i benderfynu ar bolisïau a blaenoriaethau i gefnogi ac i hyrwyddo'r Gymraeg.

Am fwy o fanylion cysyllter â **Toni Schiavone (Cadeirydd), Bryn Celyn, Pandy Tudur, Abergele (074 576 554).**

### GALLWN HELPU'R CHWARELWYR

*Annwyl Olygydd,*

*Byddai'n dda iawn gen i pe caniataech chi imi roi gwybod i'ch darllenwyr drwy gyfrwng eich colofn lythyrau bod modd cynorthwyo teuluoedd-chwarelwyr Blaenau Ffestiniog sy'n wynebu Nadolig a blwyddyn newydd ddi-gysur oherwydd anghydfod yn y chwareli. Maen nhw ar eu pedweryedd mis llwm. Nid bach o benderfyniad sydd eisiau i ddal ati fel hyn a dim ond argyhoeddiad cadarn allai gario neb cyn belled. Heb gyd-ddealltwriaeth teuluoedd a pharodrwydd i gyd-ddioddef eu cynni hawdd iawn fyddai i dyndra anochel eu hamgylchiadau droi'n dristwch.*

*Gofynnir i'ch darllenwyr eu helpu i osgoi hynny, oherwydd o bob canlyniad i anghydfod fel hyn, hwn yw'r gwaethaf.*

*Agorwyd cyfri ym Manc Barclay, Y Brif Heol, Blaenau Ffestiniog, 'Cronfa Cefnogi'r Chwarelwyr', y gall unrhyw un sy'n dymuno hynny gyfrannu iddi. Apelir yn daer am eu hymateb.*

*Yn gywir gyda diolch,*
*Elfed Roberts,*
*ar ran Pwyllgor Rhanbarth Meirionnydd Nant Conwy, Plaid Cymru*
*Swyddfa Plaid Cymru*
*Bryn Marian*
*Blaenau Ffestiniog*

**ATEB ANN ARKIST**

*Annwyl Ann-*

*Mewn atebiad i'ch llythyr mis Hyfref yn yr Eco. Yn gyntaf dymunaf eich llongyfarch am ddysgu yr iaith Gymraeg. Yn ail nid wyf yn cydweld â chwi ynglŷn â gwisgo "uniforms" yn yr ysgolion.*

*Trwy wisgo "uniform" mae pob plentyn ar yr un lefel boed gyfoethog neu dlawd, fedr neb geisio bod yn fwy o "swells" na'r lleill.*

*Yr ail bwynt ynglŷn â Cŵn. Rwyf yn hoff iawn o gŵn, ond fel chwithau nid wyf yn hoffi sathru eu baw. Yn y wlad yma rhaid i bob ci fod ar "lead" os allan ar y ffordd. Hefyd rhaid i'w perchennog gario pwced bach a llnau baw y ci pe tasa fo (y ci) yn cael damwain.*

*Dymuniadau gorau a daliwch i sgwennu yn Gymraeg*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*E. Jones (Mrs)*
*72 Lambeth St.,*
*Panania 2212*
*N.S.W.*
*Awstralia*

### CANOLFAN YMWELWYR I LANBERIS

*Annwyl Olygydd,*

*Gofynnwch am sylwadau parthed y datblygiad arfaethedig ar y Ddôl yn Llanberis.*

*Sylwer yn y lle cyntaf fod y cynllun wedi ei roi gerbron y cyhoedd fel un o eiddo Gwesty'r Fictoria a Lein yr Wyddfa. Er bod y ddau wedi eu lleoli yn Llanberis mae'r ddau yn eiddo i estroniaid a chredaf ei fod yn gywir i ddweud fod 95 y cant o gyfranddalwyr Lein yr Wyddfa yn byw y tu allan i Gymru a bod Cadogan Properties yn dal dros 40 y cant o'r holl gyfranddaliadau. Credaf mai cwmni o Lerpwl ydyw perchnogion y Fictoria. Golyga hyn, os bydd elw i'r ddau gwmni, y byddan i'w dalu — i Loegr aiff yr arian ac nid aros yn yr ardal. Pa ddiben felly os nad yw Cymry ar eu hennill?*

*O edrych yn fanwl ar y cynllun, mae'n debyg o amharu ar ganol pentre Llanberis — siopau a thai bwyta i'w hadeiladu ar y ddôl mewn cystadleuaeth annheg wrth ganolbwyntio popeth yn y Ganolfan Dwristiaeth. Faint o waith ddaw o'r cynllun? Ar wahân i'r adeiladu mae'r ffigurau a roddir yn chwerthinllyd o gofio nifer y siopau, tai bwyta a gwestai a gollir yn y pentre ei hun.*

*Mae'r Ddôl yn eiddo i ni, bobl Gwynedd, a bwriad llawer o gyfeillion yr ardal oedd ei gadw yn fan agored er budd trigolion lleol. Os oes datblygiad i fod gwell o lawer fyddai ei adael mewn gofal cynghorau Gwynedd ac Arfon sy'n atebol i'w hetholwyr. Mae Pwyllgor Parc Padarn yn bodoli er lles yr ardal.*

*Eu lles eu hunain sydd gan y ddau gwmni gan geisio elw ar y posibiliadau y bydd mwy o bobl yn ymweld â'r ardal oherwydd y Cynllun trydan Dŵr. Mae llawer yn anghofio neu yn diystyru yr holl gynlluniau gwyliau arfaethedig sydd yn cael eu hystyried ar hyd yr arfordir o Chei Conna i Abersoch. Os bydd 200,000 o bobl ychwanegol yn teithio ar hyd y ffordd newydd (A55) bydd ganddynt lawer iawn mwy o ddewis cyn cyrraedd Llanberis (neu Landwrog).*

*Yn gywir,*
*Bro Bono Publico*

**Cafwyd enw a chyfeiriad Pro Bono Publics (Gol.)**

### EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU BRO MADOG

Logo forwrol fydd logo Prifwyl Bro Madog 1987. Cynllun syml wedi ei seilio ar y tair hwyl sgwâr a welir ar hwylbren flaen hen sgwners enwog Porthmadog, sef y 'Western Ocean Yachts' – uchafbwynt datblygiad llongau hwylio bychain drwy'r byd i gyd.

Cynhaliwyd cystadleuaeth yr arwyddlun (logo) yn gynharach eleni a chafwyd ymateb rhagorol, gyda chynifer â 53 o ymgeiswyr – a chan fod amryw wedi anfon mwy nag un ymgais, cyfanswm o 73 o geisiadau.

Wedi gogrwn y cyfan ac ystyried, ac ailystyried lawer gwaith, yr oedd nifer o'r cynigion yn glynu gyda'r beirniad, Elis Gwyn Jones, Llanystumdwy.

Ac allan o'r 'rhestr fer' honno y bu raid iddo ddewis yr un mwyaf cymwys, sef 'Y Tair Hwyl' o waith Rob Piercy o Borthmadog.

Meddai Elis Gwyn Jones, "Mae yn syml a glân, yn hawdd ei ddefnyddio mewn unrhyw faint, a'r cynllun hwyliau'n galw'r glannau i gof yn addas iawn."

### AR WERTH

**'Twin Pram' i ddol,** lliw brown, mewn cyflwr ardderchog. **Waunfawr 626.**

**1 Ffenest 'secondary' maint 69½" x 41". Waunfawr 534.**


**Y Bistro**
**Glandŵr**
**43-45 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
*Ffôn: LLANBERIS 871278*
(Danny a Nerys Roberts)
Taste of Britain Awards
**Rhwng Ynys Môn a Pharis**
**Does unlle gwell i'w ddewis**
**Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,**
**Na'r Bistro yn Llanberis.**
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**



**NOSON O GÂN**
(Elw at Ymchwil Muscular Dystrophy)
17 IONAWR 1986
CANOLFAN NEWYDD
Y WAUNFAWR
**Meibion Dwyfor . Annette Bryn Parri**
**Siân Wyn Gibson**
**Pedwarawd o Fand Llanrug**
**Arweinydd: Edwin Pritchard**
7.30 pm yn brydlon £1 Oedolion, 50c Plant
Ar werth yn lleol ac wrth y drws
Manylion llawn oddi wrth Alun Williams, 13 Bro Waun, Waunfawr 630

# LLANBERIS

**Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)**

ARWERTHIANT NADOLIG: Ar Dachwedd 22 trefnwyd Arwerthiant Nadolig lwyddiannus iawn gan Bwyllgor yr Henoed. Agorwyd yr Arwerthiant gan Mrs Marian Roberts, Bryn Mêl. Cyflwynwyd hi gan lywydd y pwyllgor gan ddiolch iddi am ei chefnogaeth a'i diddordeb ymhob mudiad lleol, ac hefyd am ei haelioni i Glwb yr Henoed. Cyflwynwyd tusw o flodau i Marian gan yr ysgrifenyddes, Miss Ann Jones, Rhes Minafon.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth eto eleni, i'r siopwyr lleol, i'r pensiynwyr ac i'r trigolion. Hefyd, diolch i'r rhai a ganlyn am help mawr ar y diwrnod: Mr Cledwyn Jones, Mr Ieuan Jones, Mr Norman Hughes, Mr Joe Clarke, Mr Eurwyn Jones, Ffordd Capel Coch, Mr Hugh Roberts, Stryd y Ffynnon, Mr Harri Roberts, y gofalwyr ac hefyd i Gareth Morris, Trystan Thomas ac Euron Thomas am ofalu am y stondin lyfrau a theganau ac i Gillian, merch Mrs Betty Williams am gynorthwyo gyda'r gwerthiant.

NOSON 'CAROL A CHAWL': Cynhelir Noson'Carol a Chawl'yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch nos Lun, Rhagfyr 23. Ceir eitemau gan y bobl ifanc. Pris mynediad yw 50c a 30c i blant yr Ysgol Gynradd. Aiff yr elw i Gronfa Apêl Sganner. Croeso i bawb.

NOSON 'PWNSH A PEI': Cofiwch am y noson o Garolau arbennig yma a gynhelir yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Rhagfyr 20 am 7.30. Pris tocyn yw £1. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

ORGANYDD AM DROS 60 MLYNEDD: Yn ddiweddar fe ymddeolodd Mr Aled Owen, Stryd Siarlot fel organydd yng Nghapel Nant Padarn wedi gwasanaeth o dros 60 mlynedd. Llongyfarchiadau i chwi a diolch am eich gwasanaeth hir a ffyddlon. Anfonwn ein dymuniadau gorau ichwi.

DIOLCHIADAU: Dymuna Mrs Ann Roberts, 22 Stryd Goodman ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra bu'n Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Elizabeth a Hefin Jones, Balaclava ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd eu merch fach, Ruth, ar ei phen-blwydd yn un oed.

Dymuna Meira a Dafydd Price, Cabs Padarn ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniont ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Ann Louise.

Dymuna Beverley Pitts, 44 Maes Padarn ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ôl derbyn triniaeth i'w choesau yn Ysbyty Gwynedd.

Dymuna Alice ac Arwel Lloyd Roberts, Trigfa, Ffordd Clynnog, Penygroes a Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a amlygwyd iddynt yn eu profedigaeth lem.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein dymuniadau am adferiad iechyd buan i Mr Gareth Jones, 12 Llainwen Isaf sy yn Ysbyty Gwynedd yn derbyn triniaeth lawfeddygol.

GWELLHAD: Da yw deall fod amryw wedi dychwelyd gartref, gobeithiwn y cewch lwyr wellhad.
Mr David Roberts, 12 Castle View; Miss Beverley Pitts, 44 Maes Padarn; Mr Joseph Thorne, 63 Maes Padarn; Mr John Hughes, 9 Rhes y faenol; Mrs Dwynwen Roberts, Coed. Mrs Jennie Maud Jones, Flat 81, Maes Padarn; Mrs Enid W. Roberts, 56 Maes Padarn.

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i bawb sy'n diodde o unrhyw anhwylder gartref hefyd.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â theulu'r diweddar Mr Charles H. Price, 58 Maes Padarn, yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlwn yn fawr â Mr a Mrs Clifford Davies, Swyddfa'r Post, Cwm-y-glo ar farwolaeth ei fam Mrs E. Ann Davies, gynt o Glyn y Ddôl, Stryd Newton, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn 86 mlwydd oed.

## FFYDDLONIAID ST IOAN



Diwrnod arbennig iawn i Miss Glenys Parry, 18 Ffordd Ceunant; Mr Bryn Cadwaladr Parry, Mafeking a Mrs Janet Davies, Stryd y Dŵr pryd y'u hurddwyd ym mhresenoldeb Duges Caerloyw yn Eglwys y Santes Fair y Trallwng. Fe'u hurddwyd am eu gwasanaeth ymroddgar ers llawer blwyddyn i fudiad eu hardal.

LLONGYFARCHIADAU:
– I Mr Michael Pritchard (Meic Rali) Glanfa, Ffordd Capel Coch ar ddathlu ei ben-blwydd yn 93 mlwydd oed ar Ragfyr 15. Dymuna trigolion Llanberis y gorau ichwi.
– I Nia Wyn Roberts, 22 Stryd Goodman ar ennill bathodynnau Efydd ac Arian am nofio.
– I Maxine Thomas, merch Mr a Mrs Meirion Thomas, Ffordd Tŷ Du, ac Alwyn Lloyd Roberts, mab Mr a Mrs Idwal Lloyd Roberts, Merddyn Coch ar achlysur eu priodas ar Ragfyr 7. Dymunwn y gorau i'r pâr ifanc.
– I Cheryl, merch Mr a Mrs John Williams, 5 Rhes y Graig ar ei dyweddïad ag Arfon Jones, Rhiwlas.
– I Mr Noel Owen, Maes Derlwyn ar ennill Cwpan Goffa Trefor Wyn yn y Gystadleuaeth Snwcer Flynyddol a gynhaliwyd yn yr Orsaf Dân yn ddiweddar. Hefyd i Mr Gerald Morris ar ddod yn ail.
– I Mr a Mrs Whitaker, 43 Stryd Newton, ar enedigaeth merch fach, Medlan ar Ragfyr 7. Chwaer fach i Heledd, Aeddan, Ffreuer a Cadell. Dyma'r anrheg Nadolig gorau bid siŵr.
– I Andrew Pitts, 53 Dôl Elidir am ennill tlws 'Disgybl Gorau'r Mis' yn Ysgol Treborth. Nid dyma'r tro cyntaf iddo ei hennill. Yn ystod gwyliau'r haf cyrhaeddodd Andrew y rownd cyn-derfynol mewn cystadleuaeth Pŵl i Ysgolion. Da iawn, Andrew. Dalier ati!

YN GWELLA: Da gweld fod Mrs Elizabeth Pitts yn gwella ar ôl torri ei braich. Mae'n parhau i dderbyn triniaeth deirgwaith yr wythnos. Gwella hefyd mae ei dwy ferch fach, Janet a Linda ar ôl bod yn gaeth yn y tŷ am wythnosau gyda'r Pas. Bu ei nith, Coral a'i nai Richard yn bur symol yn yr ysbyty yn Lerpwl, ond mae hwythau'n gwella erbyn hyn. Brysiwch fendio'n llwyr fel teulu erbyn y daw yr hen Santa.

Da gweld Sandra Tanfield, 10 Dôl Elidir adref wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty; hefyd Melanie Sellars, 13 Dôl Elidir a'i chwaer fach Annette sy wedi torri ei braich.

LLONGYFARCHIADAU i Stan a Ruth Williams, Pant y Cafn ar enedigaeth merch.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Carys Edwards, Parc, y Bala, ar ei chanu ar y rhaglen teledu 'Bwrlwm Bro' yn ddiweddar. Merch yw Carys i John H. Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn. Nid yw canu a chyfansoddi caneuon ysgafn, modern yn ddieithr i Carys. Ddwy flynedd yn ôl daeth ei chân yn drydydd yn y gystadleuaeth 'Cân i Gymru'. Yn y dyfodol agos fe welir Carys eto ar y teledu gan ei bod wedi cael ei dewis i ganu dwy gân ar y rhaglen 'Taro Tant'. Yn ystod y rhaglen hon bydd yn canu unawd a gyfansoddodd ei hunan a geiriau o waith ei thad ar alaw arall. Cyn y Nadolig bydd Carys yn canu ar y rhaglen Radio boblogaidd 'Rhwng Gŵyl a Gwaith'. Y tro hwn bydd yn canu carol o waith ei thad ar alaw o'i heiddo ei hun.

YSGOL DOLBADARN

**Yr Ymgyrch Lyfrau:** Yn ystod tymor yr haf bu plant yr ysgol yn cymryd rhan yn yr Ymgyrch Lyfrau. Daeth yr ysgol yn drydydd drwy Gymru. Diolch i'r plant am eu brwdfrydedd gan gynnwys y rhai sydd ym Mrynrefail eleni. Diolch i chwithau am eich cefnogaeth.

**Gwasanaeth o Ddiolchgarwch:** Ar fore Gwener, Hydref 18 cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Ysgol pryd y cymerwyd rhan gan yr holl ddisgyblion. Eleni daeth y Parch Trefor Lewis, gweinidog Capel Coch i sgwrsio â'r plant. Caed anerchiad diddorol dros ben gan y gweinidog yn ogystal â gwasanaeth effeithiol a bendithiol iawn.

**Ymweliad Cwmni'r Frân Wen â'r Ysgol:** Dydd Mercher, Tachwedd 6 ymwelodd Cwmni'r Frân Wen â'r Ysgol i berfformio drama Gŵyl India. Cwmni theatr mewn addysg yw Cwmni'r Frân Wen a balch iawn ydym o'i groesawu i'r ysgol bob amser. Y tro hwn, drwy ymdrin â chwedl ac hanes yr India llwyddodd y Cwmni i ddefnyddio holl blant yr Adran Iau i berfformio ac actio. Bu'r ymweliad yn brofiad buddiol iawn i'r plant.

**Gwerthu Pabi:** Eleni eto cynhaliwyd yr ymgyrch o werthu pabi yn yr Ysgol. Fel arfer, bu llwyddiant ar y gwerthu a chaed casgliad o £24. Dymuna'r Prifathro ddiolch i'r rhieni am eu cefnogaeth brwd.

**Chwaraeon:** Dydd Gwener, Tachwedd 8 teithiodd Tîm Pêl-rwyd a Thîm Pêl-droed yr Ysgol i'r Bontnewydd i chwarae yn erbyn y ddau dîm o'r ysgol yno. Colli fu hanes y Tîm Pêl-rwyd y tro hwn ond llwyddodd y Tîm Pêl-droed i ennill o dair gôl i ddwy.

**Stondin Sbondonics:** Bu cerbyd Clwb Llyfrau Sbondonics yn yr Ysgol ar ddau achlysur yn ystod mis Tachwedd. Ar y ddau ymweliad cafodd plant yr Adran Iau y cyfle i weld Llyfrau Cymraeg a argraffwyd yn ddiweddar.

**Cinio Nadolig, Dydd Mercher, Rhagfyr 11:** Eleni, yn lle'r Parti Nadolig arferol, caed Cinio Nadolig. Gwahoddwyd holl ddisgyblion yr Ysgol, gan gynnwys y Dosbarth Meithrin (rhan-amser) i'r wledd. Gwledd yng ngwir ystyr y gair ydoedd hefyd ac fe fwynhawyd y danteithion yn fawr. Dymuna'r Prifathro a'r plant ddatgan eu gwerthfawrogiad i Mrs Lovell (cogyddes) a Staff y Gegin am baratoi cinio mor flasus.

**Casglu Hen Bapur Newydd:** Y mae plant o'r Ysgol yn dal i gasglu hen bapur newydd er budd Cronfa Ariannol Theatr Fach Gorffwysfa. Yn ôl tystiolaeth Miss Marion Davies, un o drefnwyr yr ymgyrch, daw'r hen bapur newydd â swm sylweddol o arian i goffrau'r Cwmni Drama. Da o beth yw gweld y plant yn ymddiddori yn y fenter, oblegid yn nes ymlaen, cânt hwy y cyfle i ddefnyddio'r Theatr Fach. Daliwch ati blant i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r gymdeithas yr ydych yn byw ynddi.

**Cyfarchion Gŵyl y Geni:** Ar ran pawb o'r Ysgol dymuna'r Prifathro Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion Talgylch Ysgol Dolbadarn.

**Cofiwch:** Bydd yr Ysgol yn ailagor wedi Gwyliau'r Nadolig, ar **fore dydd Llun, Ionawr 6, 1986.**

FFAIR NADOLIG: Ar nos Wener, Rhagfyr 6 cynhaliwyd Ffair Nadolig yn y Ganolfan gan aelodau Plaid Cymru y pentre. Codwyd cyfanswm o dros £300 i'r gangen. Dymuna'r gangen ddiolch i bawb a fu'n gweinyddu ac i'r rhai a gefnogodd y Ffair.

LLWYDDIANT PÊL-DROED: Llongyfarchiadau i un o ddisgyblion yr ysgol, sef Ian Lloyd Hughes ar ennill y fedal arian a'r fedal aur yng Nghynllun Coca Cola ar fedrusrwydd mewn chwarae pêl-droed. Cafodd Ian ddwy dystysgrif hefyd. Y mae'n gapten ac yn aelod gwerthfawr o dîm yr ysgol; mae'n chwarae hefyd i Dîm Llanberis (dan 12). Dilyn llwybr ei dad y mae Ian gan fod Mr Emlyn Hughes yn ymddiddori yn y gêm ac yn hyfforddwr i Dîm dan 12 Llanberis.

DIOLCH: Dymuna Clifford a Diana a Nia (Glyn-y-ddôl gynt) ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl. Diolch yn arbennig i'r Parch Gwynfor Williams.

Dymuna Mr W.S. Griffith (Wil Sam) 6 Res Fictoria ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ato tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, ac ar ôl dod gartref. Diolch o galon i bawb.

MARW: Ar Dachwedd 28 bu farw Mrs Elizabeth A. Davies, 13 Stryd Newydd yn 86 oed. Bu Mrs Davies yn byw yn Dinorwig am 30 o flynyddoedd cyn symud i Lanberis yn 1962 yna ddwy flynedd yn ôl daeth i fyw i Ddeiniolen. Bu farw ei gŵr, Glyn (Garreg Lydan) 21 o flynyddoedd yn ôl.




**W.H. JONES**
Trydanwr
**Green Bank**
**Stryd Fawr**
**LLANBERIS**
**Fôn: Llanberis 871470**
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati
Nadolig Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda


CYFARCHION NADOLIG
LLANRUG

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**TECWYN JONES**

**CAE RHOS, LLANRUG**

YMGYMERWR CLUDO
CYFLENWR TYWOD, GRO AC ATI

**Ffôn: Caernarfon 3547**



DIOLCHWN YN GAREDIG IAWN AM EICH CEFNOGAETH FLWYDDYN AR ÔL BLWYDDYN A DYMUNWN FEL TEULU NADOLIG LLAWEN I CHWI OLL A DYMUNIADAU GORAU AM Y FLWYDDYN NEWYDD



**SIOP a MODURDY GROESLON MARC LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 2445**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn



**M. ROWLANDS**

**MONUMENTAL MASONS**

**LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 2898**

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

**Ar gyfer pob parti . . .**
**I ddathlu pob achlysur . . .**



**Gwesty'r Foelas**

(Richard a Meirwen Thomas)

**Llanrug**

*Ffôn: CAERNARFON 4652*

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**

Dymuna holl Staff

COFIWCH FOD YMA BRESANT NADOLIG I BAWB –
Dillad Dynion, Merched a Phlant, Teganau, Slipars, Blancedi, Llyfrau, Carpedi, Bwydydd a Diodydd



**Y CO-OP LLANRUG**

Ffôn: CAERNARFON 2937

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco

FE'CH SICRHAWN CHI
Y CEWCH EIN GWASANAETH
SIRIOL A'R BARGEINION
ARFEROL TRWY GYDOL
1986

COFIWCH HEFYD –
DIFIDEND o 5c
YN Y BUNT
I
AELODAU'R
GYMDEITHAS

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

**SIOP DRIN GWALLT**

# Elaine Williams

**Ffordd yr Orsaf**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 2023**

---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

BERYL a GWEN

# LLYTHYRDY LLANRUG

**Ffôn: Caernarfon 2422**

---

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid a'n cyfeillion oll oddi wrth**

# *R.Hughes Jones a'r Mab*

**SIOP GIG**
**BRYN AFON**
**LLANRUG**

*Ffôn: Caernarfon 3188 a 5190*



**Arbenigwyr ar gig i'r rhewgell**

---




*CYFARCHION Y TYMOR*
*A*
*DYMUNIADAU GORAU*
*oddi wrth*
*NEIL, IRIS, MARGARET AC OLWEN*

# y Siop Sglodion

**Pontrhythallt**
**Llanrug**

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

---



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

# LYNWOOD JOINERY

**BRYN AFON**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 77422**
**Portdinorwig 670191**

FFENESTRI . DRYSAU . GRISIAU
GATIAU ARBENIGWYR
GWYDR DWBL

---

**J.H. a H. JORDAN & SON**

# SNOWDON GARAGE LLANRUG

Ffôn: CAERNARFON 3056



Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth bawb yn y garej.
Gobeithio y cawn eich cefnogaeth eto ym 1986

**Gwerthu ceir newydd ac ail-law**
**Trin cyrff – Sythu Chasis – Spreio – Unrhyw Waith Mecanyddol – Atgyweirio – MOT – Gwasanaeth Torri Lawr 24 awr**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# JONES A PITTS

**PEIRIANWYR MECANYDDOL**

Arbenigwyr mewn pob math o waith metel



**GWAITH BRYN AFON**
**LLANRUG**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

# SELWYN MORRIS

**Adeiladwr a Threfnydd Angladdau**

# LLANRUG

**Ffôn: Caernarfon 2841**

DYMUNA

# WIL a MYRA PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD
LLANRUG
(Ffôn: 870022)

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

TONY, BERYL a STAFF

Tafarn

# PENBONT
## LLANRUG


Fe rown ichi ein croeso
arferol trwy gydol 1986






CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

# GLYN ROBERTS A'I FAB
## DYNION GLO

3 a 4 TAI HERMON, LLANRUG
Ffôn: 5043 a 2125

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Lwyddiannus
i bawb oddi wrth

# ELWYN HUGHES
CONTRACTOR
PENNANT
LLANRUG
Ffôn: CAERNARFON 2156








YN 1986

beth am

# PEUGEOT 205

Y car mawr tu mewn,
Bach tu allan

oddi wrth

# JOHN TREVOR





GAREJ HAFOD
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3372

NADOLIG
LLAWEN
A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA
I BAWB




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**JOHN a ROBERTA GRIFFITH**

# Y STORFA

**SGWÂR LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 2790**



Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd Archebion at eich drws. Ffilmiau fideo £1 y noson

**Diolch i bawb am eich cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll oddi wrth

**David a Bernadette**

## JONES

**SNOWDON STORES PONTRHYTHALLT LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 4472**

**PAPURAU NEWYDD A BWYDYDD**

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



oddi wrth

## Wavell Roberts

**CIGYDD**

**LONDON HOUSE**

**LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 3574**

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**RHIANNON MORRIS a holl staff**

## BWSIAU ARFON LLANRUG



Ffôn: Caernarfon 5175 neu Bangor 51981

---

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA oddi wrth

## AVRIL

**4 TAI HERMON LLANRUG**

**Ffôn: Caernarfon 5043**

**FFRWYTHAU A LLYSIAU AT EICH DRWS**

---



**Mae David, Gill a Staff**

## TAFARN GLYNTWROG LLANRUG

yn diolch yn fawr i bawb a'u cefnogodd trwy gydol y flwyddyn ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



---

**Simneau glân am bris rhesymol gan**



## G. LLOYD

**4 PLAS TIRION TERRACE**

**LLANRUG**

Cyfarchion y tymor i chwi oll

*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

*Ffôn: Caernarfon 4781*

---

**WELDIO OFFER FFERM A PHEIRIANNAU DIWYDIANNOL**

**GWNEUD GIATIAU, FFENSYS AC ATI AR GYFER Y CARTREF**

**ATGYWEIRIO TAI GWAIR**

## E. PUGH

**WELDING & FABRICATING**

32 GLANFFYNNON

**LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 5394

*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

---

## EMYR JONES

PLYMAR

PEIRIANNYDD GWRESOGI

GWAITH INSIWLEIDDIO

**44 Glanffynnon**

**LLANRUG**

**Caernarfon.**

**3513**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.**

CYFARCHION NADOLIG: Y mae Miss Annie Parry a Mrs Jane Williams, 14 Hafan Elan yn awyddus i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau, eu cymdogion a'u perthnasau.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs A. Parry, 3 Tai Bryn Coch ar farwolaeth ei brawd, Mr John Idris Roberts, Bethel, gynt o Dalybont, Llanrug.

BLODAU'R GRUG: Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Blodau'r Grug yn y Neuadd Goffa ddydd Iau, Tachwedd 14. Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol oedd yn llywyddu a'r siaradwr gwadd oedd Mr R.H. Parry, 12 Stâd Cae Bold, Caernarfon. Ei destun oedd 'Cwpaned o De'. Cafwyd cyfraniad gan Mr Cledwyn Williams a Mr John G. Jones, Talybont. Rhoddwyd y te gan Mrs A. Smith, Llechwedd, Mrs A. Parry, 3 Tai Bryn Coch, Mrs Ina Jones, Bod Ifor, Miss Buddug Williams, Glan Padarn a Mrs J. Roberts, Elidir View. Mrs Megan Williams, Dwyfor enillodd y raffl, a thalodd Mr Ifor Williams, Hafan Elan y diolchiadau.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mrs Marlyn Jones, 31 Bro Rhyddallt ar farwolaeth ei thad, Mr Kenneth Williams, Hen Gapel, Caeathro.

NADOLIG LLAWEN: Y mae Mrs Megan Williams, Gweledfa am ddymuno Nadolig Llawen i'w theulu, ei ffrindiau a'i chydnabod.

FFAIR NADOLIG: Cynhaliwyd Ffair Nadolig Capel Mawr nos Iau Rhagfyr 5. Agorwyd y noson a diolchwyd i bawb gan Mrs Gillian Morris. Cafwyd cefnogaeth dda a gwnaethpwyd elw sylweddol.

YMDDEOLIAD: Ar y dydd olaf o fis Hydref ymddeolodd Mr Neville Roberts o'i swydd fel rheolwr cangen Abergele o Fanc y Midland lle y bu'n gweithio am y deng mlynedd diwethaf. Mab y diweddar Mr a Mrs Owen Roberts, Eryri, Llanrug yw Mr Neville Roberts. Dechreuodd ar ei yrfa yn y banc ym mis Medi 1942 pan oedd ond pymtheg oed, a bu'n gweithio mewn amryw o ganghennau banc ar hyd a lled gogledd Cymru. Y mae Mr Roberts yn flaenor yn yr Eglwys Bresbyteraidd ym Mhrestatyn. Y mae hefyd yn aelod o'r Rotari, Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych a Chymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa. Dymunwn y gorau iddo ar ei ymddeoliad.

YN YR YSBYTY: Derbyniodd nifer o drigolion Llanrug driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar sef Miss Mary Owen, 3 Hafan Elan; Mrs Gwyneth Evans, 18 Glan Moelyn; Mrs Elen Morris, Bronallt, Ffordd Glanffynnon a Mr Gwilym Jones, Gorwel. Dymunwn wellhad buan iddynt i gyd.

DYWEDDÏAD: Llongyfarchiadau i Gwen, merch Mr a Mrs Hugh Oliver Jones, Eryri a Wyn, mab Mr a Mrs Victor Griffith, 22 Erw Faen, Tregarth ar eu dyweddïad.

CYFARFOD LLENYDDOL: Nos Fawrth, Tachwedd 25 fe gyfarfu Cymdeithas Lenyddol y Capel Mawr â Chymdeithas Lenyddol gyd-enwadol Bethel yn festri capel yr Annibynwyr Bethel. Trefnwyd y cyfarfod gan Mr a Mrs Jenkin Griffith, Bethel. Mwynhaodd y ddwy gymdeithas y cyfarfod yn fawr iawn. Diolchodd Mrs Betty Owen, Bethel a'r Parch John Morris, Llanrug i Mr a Mrs Griffith am noson ddifyr a hefyd i Gymdeithas Bethel am eu croeso.

CYFARCHION NADOLIG: Dymuna Mrs Margaret Evans, Lloc, Ffordd Glanffynnon Nadolig Llawen i'w chyfeillion a'i chydnabod. Y mae'n dda gennym glywed fod Mrs Evans yn gwella.

CINIO NADOLIG: Nos Fawrth, Rhagfyr 3 daeth dros gant o henoed yr ardal i'r Ysgol Gynradd i ginio Nadolig a drefnwyd gan Bwyllgor y Carnifal. Cafwyd cinio ardderchog. Gofynnodd y Parch Aled Jones Williams am fendith ar y bwyd.

GWASANAETH NOSON CYN Y NADOLIG: Bwriedir cynnal gwasanaeth noson cyn y Nadolig am 6.30 yng Nghapel Hermon. Y mae croeso cynnes i bawb o bob enwad.

CYMDEITHAS UNDEBOL PONTRHYTHALLT: Nos Fercher Rhagfyr 6 cafwyd cyfarfod arbennig gyda phobl ieuainc y fro yn cymryd rhan. Hyfforddwyd hwy gan Mrs Mair Huws a Mrs Megan Roberts gyda Mrs Menna Williams a Miss Lowri Prys Roberts yn cynorthwyo. Y rhai a gymerodd ran adrodd, canu ac ar yr offerynnau cerdd oedd: Gwenan a Lowri, Gwion, Dyfed, Eifion, Manon, Meinir, Sharon, Nia, Alison, Lisa, Eurgain, Angharad a Sioned. Talwyd diolch i bawb gan Miss Megan Humphreys. Y llywydd oedd Mrs J.C. Williams, Bod Fair.

SGANIWR I YSBYTY GWYNEDD:



*Y Parch John Morris yn casglu £210 gan bobl ifanc gofalaeth y Capel Mawr, Llanrug tuag at brynu Sganiwr Corff Cyfan i Ysbyty Gwynedd, Bangor.*

Nos Sul Rhagfyr 8 cynhaliwyd awr ddistaw noddedig gan bobl ifainc gofalaeth y Capel Mawr, Llanrug a'r cylch. Bydd yr arian a gesglir yn mynd tuag at brynu sganiwr corff cyfan i Ysbyty Gwynedd.

LLONGYFARCHIADAU: i Iwan Roberts, Pendyffryn, Talybont ar ennill gradd M.Ed. yn ddiweddar.

PLAID CYMRU: Cangen Llanrug a'r Cylch: Bydd yr aelodau yn croesawu Dafydd Wigley, AS, mewn noson Gymdeithasol yn Ysgol Gynradd Llanrug yng nghyfarfod mis Ionawr sef nos Iau Ionawr 9 am 7.30. Bydd yno raffl a bwrdd gwerthu. Apeliwn ar yr aelodau i gofio'r dyddiad ac i roi cefnogaeth deilwng i'r cyfarfod hwn.

Cynhaliwyd cyfarfod o gangen Plaid Cymru yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Tachwedd 27. Y siaradwr gwadd oedd Mr Emrys Evans a'i destun oedd 'Addurno Ffynhonnau'. Cafwyd cyfarfod difyr iawn.

NOSON GOFFI Y.D.N. Nos Fercher, Rhagfyr 4 cynhaliwyd noson gymdeithasol gan adran Dyffryn Peris o'r Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yn yr Ysgol Gynradd. Gwnaeth yr adran elw o dros £120. Cynhaliwyd raffl ac enillodd Mrs Siân Williams y llun a Mrs Beryl Thomas y ffrwythau. Hoffa'r trefnwyr estyn diolch arbennig i ferched cegin Ysgol Gynradd Llanrug a fu'n gweithio mor galed yn paratoi'r lluniaeth. Diolch hefyd i'r prifathro, y glanhawr a phobl y pentref am eu cefnogaeth parod.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cyfarfu Cymdeithas Lenyddol y Capel Mawr nos Iau, Rhagfyr 12. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Myfi Roberts a chafwyd sgwrs hynod o ddiddorol am Fandiau'r Cylch gan Mr Emyr Jones, Caernarfon. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Mr John Wyn Owen a'r Parch John Morris.

DWLI DOLIG: Dydd Sadwrn, Rhagfyr 13 cynhaliwyd Dwli Dolig yn Ysgol Uwchradd Brynrefail i blant o 7 i 11 oed. Trefnwyd y cyfarfod gan Miss Delyth Oswy a'r Parch John Morris. Daeth grŵp 'Canu'n Llon' i arwain y canu, yn ogystal cafwyd gemau, posau, tafelnni gwaith ac fel clo i'r gweithgarwch gwnaethpwyd cardiau Nadolig a baner yn cyfleu neges yr Ŵyl, a chyflwynir y rhain i drigolion Plas Pen Gwaith, Llanberis. Cafwyd cyfarfod da iawn ac roedd yn amlwg i'r plant fwynhau eu hunain yn fawr.

Bor Sul y 15fed cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul yng Nghapel Pontrhythallt.

Cafwyd darlleniadau, adroddiadau a charolau yn ystod y cyfarfod, ac anerchwyd hwy gan y gweinidog y Parch John Morris.

Trefnwyd y cyfarfod gan athrawon yr Ysgol Sul.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen leol yn yr Ysgol Gynradd, nos Fawrth, Rhagfyr 10, dan lywyddiaeth Mrs Bethanne Williams.

Llawenydd i'r aelodau oedd deall fod Mrs Evans, Lloc yn gwella ond yn aros ar hyn o bryd gyda'i chwaer yn


**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA**

**oddi wrth**

**Linda**

MOBILE HAIRDRESSER



Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug
Ffoniwch

**CAERNARFON 3674**

i fod ar eich dela dros yr Ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

***W.J. GRIFFITH***

**PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG PANT TIRION, LLANRUG**

*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL SYSTEMAU GWRESOGI OLEW GWRES BP

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors

*Dim un dasg rhy fychan*
*Dim un dasg rhy fawr*

Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**YSGOL YRRU OFALUS**

- **Gwasanaeth 7 diwnod**
- **O ddrws i ddrws**
- **Control Deuol**

**D L**

**PRITCHARD**
**43 glanffynnon**
**LLANRUG**
**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

**D. LL. OWEN**
**1 BRYN AFON TERRACE, LLANRUG**
**FFÔN C'FON 76699**

**Cludo Llwythi Bychan a Chlirio Safleoedd**
**Llwythi 3 Tunnell**
**Hefyd Trin Gerddi a Thorri Gwair**

Nyffryn Conwy. Anfonwn gyfarchion y tymor iddi gyda dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan.

Noson o rannu a blasu danteithion oedd hi. Cafwyd noson arbennig o dda a phawb wedi gwneud ei chyfraniad. Roedd y bwyd yn wledd i'r llygad ac yn tynnu dŵr o ddannedd pawb.

Y ddwy fu'n gyfrifol am drefnu a gwneud y noson yn gymaint llwyddiant oedd Mrs Margaret Parry a Mrs Bethanne Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Nancy Lovatt. Enillwyd y raffl gan Mrs Ceinwen Roberts.

Gobeithia'r Pwyllgor Celf a Chreft drefnu taith diwrnod i Lundain ar ddydd Mawrth y 4ydd o Fawrth 1986 i ymweld ag Arddangosfa 'Ideal Home' yn Earl's Court. Y bwriad yw llogi seddau ar y trên o Fangor – cychwyn am 6 o'r gloch y bore. Bodd digon o ddiddordeb ymysg y canghennau bwriedir bwrw ymlaen i wneud trefniadau pendant. Pawb sy'n awyddus i fynd ar y daith i anfon eu henwau i Mrs Lovatt. Gofynnir am flaen-dâl o £5 y pen. Cost pob tocyn fydd £24 am y siwrnai a'r mynediad i'r Arddangosfa.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Ionawr 14, 1986 pryd y cynhelir 'Seiat Holi' a gwahoddir pynciau i'w trafod – y cwestiynau i'w hanfon i'r ysgrifennydd cyn diwedd Rhagfyr.

Hysbyswyd am destunau cystadleuaeth llenyddol y Mudiad am y tymor. Mae'r cyfansoddiadau i fod i mewn erbyn Mawrth 1af, 1986.

Drama Un Act i Ferched (Perfformir y dramâu buddugol yn Ysgol Breswyl 1986). Rhyddiaith: Ysgrifennu Cyfres o Chwech Stori i blant Ysgol Feithrin. Barddoniaeth: Telyneg o'r testunau canlynol: 'Mam', 'Fory', neu 'Ar Lan y Môr'. Deialog: Cyfres o Chwe Deialog addas i'w defnyddio mewn Dosbarth Dysgwyr. Mae'r manylion i'w cael gan Mrs Lovatt.

## RHEOLWR NEWYDD



*Hefin Pritchard, Bryn Moelyn yw rheolwr newydd tîm pêl-droed Llanrug. Bydd Hefin sydd wedi chwarae i'w bentref genedigol, am tua 7 tymor i gyd, yn camu i'r swydd a adawyd yn wag yn dilyn ymddisgwyddiad diweddar Peter Casey. Bu Hefin yn chwarae yng Nghynghrair Arfon am tua 10 tymor — gan gynnwys Mountain Rangers. Y Felinheli a Benllech yng Nghynghrair Môn. Gobeithia elwa ar ei brofiad eang i ddenu chwaraewyr o safon i gryfhau carfan Llanrug.*

# TAN-Y-COED

**Gohebydd: Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)**

CROESO ADRE: i Mr Hefin Pritchard, Cynfaes, a'i fab Llion, y ddau wedi bod yn yr ysbyty. Da deall fod y ddau yn gwella.

I'R YSBYTY: Rhagfyr 12 bydd Mr Michael Williams, Cartref, Tai Trefor, yn mynd i Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd i gael triniaeth lawfeddygol.

Ein dymuniadau gorau iddo. Edrychwn ymlaen at ei weld yntau adre'n ôl wedi cael gwellhad, wedi triniaeth lwyddiannus.

SEIAT: Nos Fercher, Tachwedd 27 yn Festri Tan-y-coed cynhaliwyd Seiat Gofalaeth y Parch John Morris.

Cyflwynwyd testun y Seiat – cymal o Weddi'r Arglwydd – 'Gwneler dy ewyllys' – gan y gweinidog y Parch John Morris, cymerwyd rhan mewn gweddi gan y Parch W.O. Roberts, a chafwyd sylw pellach ar y testun gan y Parch W.O. Roberts, Mri John Wyn Owen, Emrys Owen, Iolo Llewelyn, Mrs W.O. Roberts a Miss Megan Humphreys.

CYDYMDEIMLO: Cymdymdeimlwn â Miss Enid Roberts a Mr Lewis J. Roberts, Minafon yn eu profedigaeth ddiweddar o golli eu brawd yng nghyfraith Mr Maurice Dicon o Wellheath ger Dudley, ac â Mrs Ceinwen Roberts, Ael-y-bryn a'r teulu oll yn eu galar.




Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r Cylch oddi wrth

**CENTRAL GARAGE**

LLANBERIS.
Ffôn: 870202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn


## CYSTADLEUAETH SEINDORF LLANRUG



*Rhai o'r cystadleuwyr ieuainc ...*



*... a rhai o'r enillwyr gyda Mr Frank Boylin, arweinydd y seindorf (chwith cefn) a Mr Skelton y beirniad wrth ei ochr.*

Enillwyr Cystadleuaeth Band Llanrug: Unawd dan 12 oed: 1af Rhodri ap Llwyd, 2il Gwion ap Llwyd, 3ydd Dyfed Thomas. Unawd dan 16 oed: 1af Susan Jacobs, 2il Gwyn B. Thomas, 3. Arwyn Roberts. Unawd Agored: 1af J. Jones, 2il J. Tame, 3ydd F. Flynn. Air Varie Agored: 1af J. Jones, 2il G. Hughes, 3ydd Kevin Tame. Deuawd dan 16 oed: 1af David a Susan Jacobs, 2il Gwyn B. Thomas a Sian Jones. 3ydd Fiona Owen a Dyfed Thomas. Deuawd Agored: 1af Dyfed Jones a James Jones, 2il Richard a Kate Charles, 3ydd John a Kevin Tame. Perfformiad Gorau dan 16 oed: Susan Jacobs, Perfformiad Gorau dros 16 oed: James Jones.

# CEUNANT

GWELLA: Da gennym ddeall fod Mrs Nell Jones, Hafodol yn gwella yn foddhaol ar ôl torri ei braich yn dilyn codwm ar ei ffordd o'r Capel yn ddiweddar.



**310 BRAIDWOOD AVENUE
PETERBOROUGH
ONTARIO
CANADA K9J IV6**

**Oherwydd amgylchiadau neilltuol, ni allwn anfon cardiau Nadolig unigol eleni, ond dymunwn:
"NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA"
i'n cyfeillion oll yn nalgylch yr 'Eco'.
Moi a Mair Parry**


**SIMNEIAU GWAEL? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?
YDI HI'N SAFF I SIÔN CORN DDOD LAWR Y'CH SIMDDE CHI?!**

Cysylltwch â Dave Wood

**'INSULAFLUE'**

**Yr Arbenigwr ar leinio simneiau**

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

# Y CLOC WYTH NIWRNOD

## Un o straeon Goronwy Owen

**EDRYCHODD Doreen a minnau ar ein gilydd. Roedd dagrau yn ei llygaid, ond ceisiais i wenu. Oedd hi yn fy nghoelio i ai peidio? Dyna a holwn fy hun. Dywedais y stori wrthi droeon, ond chwerthin a wna hi bob tro. "Paid â thynnu yn fy nghoes. Mi wyt ti'n deud celwydda' ofnadwy." Eto, mi oedd yn rhyw hanner gredu, a gwelwn heno ei bod eisiau fy nghoelio, yn ysu i fy nghoelio, ond roedd yr ansicrwydd o hyd i'w weld tu ôl i'w dagrau.**

Gofynnodd i mi:

"Wyt ti'n wir gredu fod y cloc yn gwybod?"

"Ydw, mae'r cloc yn gwybod."

"Mae Siwan yn saff?"

"Ydy, mae hi'n holliach. Mi elli di gymryd fy ngair."

Distawodd, a throi ei phen i gyfeiriad yr hen gloc mawr a safai yn y gornel yn tipian y munudau i ffwrdd yn dalog. Roedd ei hansicrwydd yn dechrau tanseilio fy hunan-feddiant i fy hun. Hen gloc mawr fy Nain ydoedd, a hi wedi ei gael ar ôl ei mam. Yn ôl y stori, saer ar y llongau hwylio oedd fy hen Daid, o gyffiniau Penrhyndeudraeth. Daeth o â'r coed adra o rhyw ran o Affrica, mahogani coch hyfryd, ac ar ôl iddo adael y môr aeth ati i lunio y cloc. Doedd dim enw gwneuthurwr ar y deial. Yn wir, cyntefig iawn oedd yr wyneb a'r peirianwaith, ond er y cyfan, cadwai amser perffaith, ac roedd pawb a'i gwelai yn dotio ar ei gas coch llyfn, yn sgleinio fel gwydr.

Pan oeddwn yn hogyn bach, cawn aros ambell i noson yn nhŷ Nain. Yn y bore, wedi i Taid adael am y chwarel, a'r hen gloc yn taro saith: bryd hynny deuai Nain yn ôl i'r gwely ataf er mwyn, yn ei geiriau hi, "I'r tân gael amser i gnesu'r tŷ."

"Deudwch stori'r cloc Nain."

"Ond mi wyt ti'n 'i gwybod hi."

"Deudwch hi eto." Ac yna gorweddwn yn hapus yng ngwres ei breichiau, tra dywedai hi y stori fel roedd ei thaid hi wedi gwneud y cloc ar ôl dod yn ôl o'r môr allan o goed a gafodd yn Affrica.

"Ydy o'n wir fod y cloc wedi stopio ar ôl i'ch mam chi farw?"

"Ydy, yn berffaith wir. Dyna'r unig dro y peidiodd yr hen gloc."

Wedi codi a gwisgo, byddwn yn sefyll o flaen yr hen ddodrefnyn ac yn rhedeg fy mysedd dros y pren llyfn lliwgar, gan olrhain siâp y ddynes ddu oedd i'w gweld allan ar ddrws y clawr yng ngraen y coedyn. Hi yn ôl Nain a roddodd y coed i'w thad, ond byddai Taid yn ei phryfocio a dweud mai hon oedd ail wraig ei dad yng nghyfraith.

Fe stopiodd yr hen gloc yr ail dro, pan fu Nain farw. I mi, doedd hyn ddim yn syndod, ac ni soniodd fy nhad na'm mam ddim ynghylch y peth, wel dim yn fy nwydd i. Galar oedd yn llenwi'r tŷ, ond pan fu mam farw, a'r hen gloc wedi peidio am y trydydd tro, mwy nag unwaith y gwelais fy nhad yn aros o'i flaen ac yn syllu i'w wyneb, fel petai'r hen fesurwr amser yn fôd dynol.

Stori hollol wahanol oedd hi ar ôl i Doreen gael Siwan, ein hunig blentyn. Roedd fy nhad wrth ei fodd yn ei chario hi o gwmpas y tŷ, yn dangos y darluniau ar y waliau iddi, y platia ar y dresel ac yn sefyll o flaen y cloc, i agor y drws i'r un bach gael gweld yr hen bendil haearn yn siglo nôl a 'mlaen. Cymerai ei bysedd bach yn ei law gadarn, a'u rhedeg yn ysgafn dros y graen cochliw ar y drws, a hithau yn adrodd yn araf ar ei ôl, "Cloc Nain ydy hwn, cloc mam a cloc Siwan."

Yn od, ni fu dim yn bod ar y cloc ar ôl i Taid ar 'nhad farw. Dim byd.

---

Ond heno rydym mewn tramgwydd. Wedi priodi, aeth Siwan a'i gŵr, bachgen galluog ym myd peirianwaith i fyw i Fecsico. Daeth y newyddion am y daeargryn erchyll ar y teledu, ac o'r funud honno, bu Doreen ar binna', yn ofni'r gwaetha'.

Cysurais hi gorau y gallwn.

"Paid â phoeni. Mae hi'n iawn. Sbia, dydy'r cloc ddim wedi stopio."

"Hen lol ydy hynna. Ringia'r nymbar 'na i fyny."

"Mi 'na i hynny, ond does dim isio. Petai rhywbeth wedi digwydd i Siwan, mi fydda'r hen gloc wedi aros."

"Ringia nhw. Mi ydw i isio gwybod yn iawn. Plîs, plîs ringia y nymbar."

Er mwyn heddwch es ar y ffôn, ond doedd ganddyn nhw ddim gwybodaeth, dim ond ein cynghori i fod yn amyneddgar ac i aros.

Roedd yr aros yn ddi-ben-draw, ac yn drwm ar y ddau ohonom, ond yn fwy felly ar Doreen. Am ddau ddiwrnod buom nôl a 'mlaen ar y teliffon, heb dderbyn gronyn o gysur swyddogol, dim ond ateb parchus y Swyddfa Dramor.

"We will pass on any information we receive to you."

Yna, y bore 'ma canodd cloch y teclyn, a Doreen a afaelodd ynddo. Clywn lais dyn yn dweud fod Siwan a'i gŵr yn saff, a gwelwn wên o ryddhad yn ymestyn dros wyneb hawddgar fy ngwraig, ond doeddwn i ddim yn disgwyl ei hymateb, ac mi ydw i'n bendant nad oedd y gŵr bonheddig y pen arall, yn coelio beth glywodd,

"O thanc iw," atebodd Doreen, "Thanc iw, thanc iw, but we knew she was all right, because the clock hadn't stopped."

Maen nhw'n dweud fod y Swyddfa Dramor yn tapio pob sgwrs ar y teliffon. Os gwn i beth na' nhw hefo ateb Doreen?

# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.**

POBOL Y CWM: Cyfarfu aelodau'r Clwb ddydd Iau Tachwedd 30 ond oherwydd tywydd anffafriol fe ymddiheurodd ein gŵr gwadd nad oedd yn bosib iddo ddod i'r clwb o dan yr amgylchiadau ond fe addawodd gyflawni ei addewid ddechrau'r flwyddyn newydd. I lanw bwlch cafwyd Bingo gyda Mrs E. Price yn galw, a'r aelodau yn rhoddi'r gwobrau. Rhoddwyd y te gan Mrs E. Williams, Pantafon a Mrs H.M. Roberts, Bryngro, a'r raffl gan Mr Tom Owen, 1 Maes Gerddi a enillwyd gan Mrs E.M. Jones, Seiont House. Dymuna'r swyddogion a'r aelodau Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau sydd wedi eu caethiwo i'w cartref oherwydd afiechyd, gyda diolch i'r ardalwyr am eu caredigrwydd i'r oedolion.

SIÔN CORN: Bydd Siôn Corn yn ymweld â Chwm-y-glo brynhawn Sadwrn, Rhagfyr 21 gan aros yn Swyddfa'r Post o ddau o'r gloch hyd bedwar. Felly blant os nad ydych wedi anfon eich llythyrau dyma gyfle i chwi ddod â hwy i Siôn Corn.

ADREF O'R YSBYTY: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Rhian Jones, Bron Eryri ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Len Parry a'r teulu, Hebron yn eu profedigaeth o golli brawd yng nghyfraith ar Ynys Môn, hefyd cydymdeimlwn â Mrs Gwyneth Chick, Rhos-y-ffin, Mr Hywel Williams, Nant Forgan a Mr Wyn Rowlands, Glan'rafon yn eu profedigaeth o golli ewythr yn Llandudno.

ANFONWN cyfarchion y tymor gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Mrs N. Jones, Bryn Gro sydd gyda'i mab yng Nghaernarfon, i Mr Alun Hughes, Mrs Williams, Miss N. Williams a Miss Ceridwen Hughes yng Nghartref Pen Gwaith, Llanberis – i Miss Annie Parry yng Nghartref Cerrig yr Afon y Felinheli.

CLWB MAMAU A MERCHED IFAINC: Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod ar Ragfyr 4ydd pryd y cafwyd arddangosfa goluro gan Awen Hardwidge, Bethel. Rhoddwyd y te a'r raffl gan Vera a Dora a'r enillydd oedd Susan Jones, Dolafon. Ni chynhelir cyfarfod yn Ionawr.

PÊL-DROED IEUENCTID DAN 15 OED: Llongyfarchiadau i'r bechgyn am roi crasfa i dîm Llanrug (6-0) yng nghystadleuaeth Cwpan Jimmy James. Enillwyd y raffl gan Geraint Jones, Llanrug.

Llongyfarchiadau i Jackie Hooby, Gernant ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 18 oed.

# NADOLIG 1985

**Daeth blwyddyn unwaith eto i derfyn mor slei**
**A gwneud i mi sbecian yn y 'cadw-mi-gei';**
**Ond y pwrs sydd yn ysgafn, a'r arian mor brin,**
**Nes gwneud i mi ganu'n ddi-galon fel hyn!**

**Teuluoedd mewn tlodi, a thadau ar y dôl**
**Oherwydd holl fymprwydd llywodraeth mor ffôl!**
**A beth am y Negro, yn diodde mewn poen?**
**Coch yw gwaed yntau, ond du yw ei groen!**

**Ond stori go debyg, oedd stori y Geni,**
**Pan oedd Joseff a Mair ar ddod yn rieni;**
**Dim croeso'n y llety, a bollt ar bob dôr,**
**Dim ond c'nesrwydd y biswail, a'r gwair yn y côr!**

**A Herod fel 'Thatcher', yn Dduw ynddo'i hun!**
**Yn byw mewn cenfigen, oherwydd Mab y Dyn;**
**Ond golau yr Angel a ddisgleiriodd fel fflam**
**Yn gwarchod yr Iesu ac hefyd ei fam.**

**Ac felly dymunaf i holl wledydd y byd**
**I ddod at ei gilydd mewn heddwch i gyd**
**Ac er bod y byd a'i broblemau mor drist,**
**'Rwy'n dymuno llawenydd ar ben-blwydd Iesu Grist!**

**JOHN V. MORRIS**
**Rhianfa**


**OSMOND SHAW**
**DEINIOLEN**

Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel Newydd
GWASANAETH ATEB
FFÔN 24 AWR

**LLANBERIS 870545**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym musnes llefrith



**EIRWYN a SYLVIA**
**WILLIAMS**
**LLWYNCOED**
**CWM-Y-GLO**
**Ffôn: Llanberis 870563**

Diolch am eich cefnogaeth trwy'r flwyddyn



# ARBENIGO AR LEWOD



Ar Dachwedd 22 eleni roedd Gwasg Y Lolfa yn dathlu achlysur arbennig iawn, sef Dengmlwyddiant cyhoeddi'r gyfrol gyntaf yn y gyfres hynod o boblogaidd gan Dafydd Parri 'Y LLEWOD'.

Ers i'r cyntaf o'r gyfres, Y Llewod a'r Dagr Haearn, gael ei gyhoeddi yn 1975 cyhoeddwyd 23 o nofelau, yn ogystal â chyfrol o jôcs a llyfr cwis.

Gwerthwyd 100,000 o lyfrau mor belled, ac yn wahanol i gymaint o lyfrau llwyddiannus eraill, mae'r holl lyfrau yn dal mewn print, yn dal yn rhad am 95c yr un ac yn dal i werthu.

I nodi achlysur y dengmlwyddiant trefnwyd cwis drwy gydweithrediad Clwb Sbondonics a chyflwynwyd y gwobrau i'r plant buddugol mewn seremoni yn Siop y Pentan, Stryd y Porth Mawr, Caernarfon ar ddydd Gwener, Tachwedd 22. Roedd Dafydd Parri yno i wobrwyo'r buddugwyr a hefyd roedd Y Lolfa yn cyflwyno anrheg iddo fel arwydd o'u gwerthfawrogiad o'i lafur di-flino.

Yn y llun gyda Dafydd Parri mae Lowri Angharad Roberts (de), Bedw Gwynion, Llanrug a enillodd docyn llyfr gwerth £30 a Ceryl Lloyd Jones (chwith), Bontnewydd (tocyn llyfr £10).


**CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA**

**Nos Fercher, 18 Rhagfyr 1985**

**CYFLE OLAF I ROI EICH ENW AR GYFER Y CINIO NADOLIG**

Mae 14 lle ar ôl ar gyfer Cinio Nadolig y Gymdeithas Hanes yn y Padarn Lake Hotel Llanberis. Hwn yn sicr yw bargen orau'r Ŵyl – pryd 3 chwrs cawl, twrci a sglodion, pwdin Dolig am £3.95 a sgwrs ar draddodiadau'r Dolig gan John Owen Huws, Y Waunfawr. I ymuno â'r 76 sydd eisoes ar y rhestr cysylltwch â'r Ysgrifennydd John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (Ffôn: Caernarfon 5605) ar unwaith.



**IEUAN WILLIAMS**

Glanffrwd

**DEINIOLEN**

**Llanberis 870484**

* Bysus o 12 i 53 sedd


* Teithiau Lleol a Thramor

* Gwaith Contract

* Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**


# PENCAMPW



Fe ddaeth dau o fechgyn Ysgol Brynrefail yn gyntaf ym Mhencampwriaethau codi pwysau Cymru yn y Ganolfan Chwaraeon Genedlaethol yng Nghaerdydd ar Ragfyr 7.

Fe ddaeth Arwel Jones o Fethel (uchod) yn gyntaf yn y gystadleuaeth i **fechgyn dan 14eg yn y dosbarth 48 kilo** ac fe ddaeth


Padarn Lake Hotel

Perchnogion Terry a Val Skilki


**STRYD FAWR**

**LLANBERIS**


**870260**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y gwesty**





# YR CYMRU!



Christopher Jones o Gwm-y-glo yn gyntaf yn y gystadleuaeth i **fechgyn dan 16 yn y dosbarth 82.5 kilo.**

Yn anffodus methodd Gwynfryn Williams o Benisarwaun gystadlu oherwydd anaf i'w gefn. Mae Gwynfryn eisoes wedi bod yn bencampwr Cymru dair gwaith.




Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

**STERMAT**

**OFFER TŶ A GARDD**

**CAERNARFON**

**Ffôn: 76506**

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn





# ARBENIGWYR COGINIO




*Dyma ragor o enillwyr o Ysgol Brynrefail. Yn y pedwerydd dosbarth y mae Helen Wyn Jones, Bethel ac Olwen Meredydd Jones o Benisarwaun a bu'r ddwy'n llwyddiannus mewn cystadleuaeth goginio a drefnwyd gan y Bwrdd Nwy. Daeth Helen ymlaen i gystadlu ar lefel sirol a daeth yn ail. Llongyfarchiadau calonnog i'r ddwy ohonynt.*

# CYSTADLEUAETH!
# £5 – I'W HENNILL




**Dyma lun a dynnwyd adeg ffilmio'r gyfres a welwn gyntaf ar S4C ar Ionawr 8. 'Bôn Braich' yw enw'r rhaglen – sy'n dangos timau o Borthmadog, Dyffryn Conwy, Bethesda a Dyffryn Nantlle yn cystadlu mewn nifer o ornestau cryfder. Dangosir un o'r tasgau uchod, sef codi echel – ac Orig 'El Bandito' Williams yn cadw golwg ar bethau.**

**Bydd eich tasg chwi ychydig yn haws – sef dychmygu beth mae Orig, neu'r codwr pwysau (neu'r ddau) yn ei ddweud. Bydd gwobr o £5 i'r dyfyniad mwyaf ffraeth yn ein golwg. Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug, erbyn Ionawr 21, fan bellaf.**


*Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*
*i chwi oll oddi wrth*



**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

### CYFARCH Y FLWYDDYN NEWYDD 1986

Rwy'n siŵr y cytunwch na ellid cyfarch y Flwyddyn Newydd 1986 yn well na thrwy ddymuno:

**Ein lôn doeth a'n bendithio – a blwyddyn**
**Heb leiddiad na chyffro:**
**Blwyddyn a'r byd yn bloeddio –**
**"Heddwch," – heb dristwch, heb dro.**
**GLAN RHYDDALLT**

### ER COF AM ISANDER

Bu farw Lewis Roger Williams (Isander) ar Ionawr 8, 1942.

**Isander? mud er syndod – ni etyb**
**Hen gritig Eisteddfod,**
**Yn fwyn na chas: ias fel ôd**
**Yrrai Lewis drwy lewod.**
**G.R.**

**O! 'rhen heliwr! 'rwy'n wylo – yn uchel**
**O achos ei briddo!**
**Am lenor del fel efô**
**Ceir awen Cymru'n crïo.**
**GLAN RHYDDALLT**

### CANMLWYDDIANT MARW S.R.

Dyma enw a chyfeiriad Ysgrifennydd Y Cymod yng Nghymru – Nia Rhosier, 14 Kenilworth House, Heol y Porth, Caerdydd CF1 1DJ. Ni fu erioed fwy o angen cymodi pobl y byd, o bob llwyth ac iaith ag sydd heddiw. Os ydych awydd cael mwy o fanylion am "Gymdeithas Y Cymod" anfonwch at Nia Rhosier. Nis gwn am neb mwy ffyddlon i'w gwasanaeth. Cewch ateb a manylion gyda throad y post fel y cefais innau pan anfonais i ofyn iddi am hanes Dathlu Canmlwyddiant Marw Samuel Roberts 1800-1885, yr Heddychwr Mawr o Lanbrynmair.

O anwylder gelwid ef S.R. Dathlwyd y canmlwyddiant ar ddydd Sadwrn, Medi 28, 1985.

Meddai Nia Rhosier wrthyf:

"Trefnwyd Pererindod S.R. Llanbrynmair, Yr Heddychwr Mawr ar ddiwrnod braf, heulog, cynnes, perffaith. Nid 'cilhaul' oedd hi y diwrnod hwnnw i gant o bererinion o bob oedran. Yr oedd Ithel Davies yn 91 oed a dwsinau dros 75 oed yn ymlwybro o'r Hen Gapel i fferm Y Diosg i gofio canmlwyddiant marw un o gewri ein cenedl.

"Yn gynharach yn y dydd bu pedwar aelod o Gymdeithas Y Cymodyng Nghymru yn cerdded ar daith hirach i godi arian i waith y Gymdeithas trwy gael noddwyr 'mlaen llaw. Buont hwy'n pererindota o'r Hen Gapel i hen Eglwys y Llan lle cawsant Seiat ar gyfraniad S.R. fel heddychwr a gwasanaeth fer o ddiolch am ei fywyd a'i esiampl. Yna ei throedio hi'n ôl at yr Hen Gapel i gyfarfod â'r dyrfa. Wedyn am ddau o'r gloch ymuno â hwy ar y daith i'r Diosg. Yno cafwyd gwasanaeth goffa yn yr awyr agored dan arweiniad gweinidog yr Hen Gapel, y Parch Dyfrig Rees yn wyneb haul llygad goleuni. Peth go amheuthun yn ôl y bobl leol ac yn ôl pob hanes hefyd oedd gweld y Diosg yn llygad yr haul. Braint fawr oedd hynny i'r rhai a fu yno yn cofio'r 'hen arwr o Lanbrynmair,' chwedl Ithel Davies."

Gwefr oedd gweld y lle'n llawn meddai Nia Rhosier am dri o'r gloch yn yr Hen Gapel.

Y peth cyntaf ar y rhaglen oedd cyfarchiad gan Ysgrifennydd y Gymdeithas.

Yna arweiniodd y Gweinidog ifanc wasanaeth teilwng iawn o'r hwn oedd yn cael ei gofio. Y Canon Dewi Thomas, Rhydaman offrymodd y defosiwn. Bu eneiniaid arbennig ar ganu pob un o emynau S.R. Er enghraifft:

**O! Blentyn y Nefoedd, paham mae dy fron**
**Mor ofnus wrth weled gwyllt ymchwydd y don?**
**Mae'r dyfnder du tywyll yn rhuo gwir yw**
**Ond diogel dy fywyd, mae'n Tad wrth y Llyw.**
**S.R.**

Rhoddodd tair o chwiorydd y capel fraslun ar lafar o fywyd a chyfraniad S.R. Yna cafwyd araith ddiddorol tu hwnt gan y Parch Ifan Wynn Evans, cwbl deilwng o draddodiad Llanbrynmair.

Te ardderchog wedyn wedi ei baratoi gan y Chwiorydd a sgwrsio.

Yr oedd y cwbl i gyd yn hollol fel y buasai Samuel Roberts yn ei ddymuno.

Gweithio fel heddychwr Cristionogol a thystio i rym Cariad Duw yn ein bywydau personol a chenedlaethol – dyna nod S.R. Ac wrth gwrs, arddel ffordd Y Cymod fel yr unig wir arweiniad i'r Cymru gyfoes. Felly yr oedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dylaswn fod wedi dweud fod Nia Rhosier yn Ysgrifennydd hefyd i'r Parch D.H. Owen (o Bontrhythallt) ysgrifennydd Cyffredinol y Cyfundeb yng Nghymru.

Llawenydd ydyw gweld Mr D. Glynne Owen, tad D.H. Owen wedi gwella mor dda ac adref.


MERCHED, DYNION, PLANT! i gael torri a thrin eich gwallt YN EICH CARTREF cysylltwch â



CHERYL WARD
Mobile Hairdressing
9 Porth Gogledd
DEINIOLEN
Ffôn: Llanberis
870911
i drefnu amser
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



MAE'R SAMARIAID YN GWRANDO, YN ABBEY ROAD



BANGOR 354646


# BETWS GARMON



*Enillwyr cwpanau Ymryson Cŵn Defaid, Betws Garmon — Geraint Owen, Cilfynydd, Waunfawr, Michael Owen, Ystrad Isa ac Elwyn Griffith, Cae Ysgubor, Betws Garmon.*





*Hugh Williams a Michael Owen, dau o'r rhai ieuengaf sy'n weithgar iawn gyda'r mudiad Cŵn Defaid Betws Garmon.*

CINIO PWYLLGOR YMRYSON CŴN DEFAID: Cynhaliwyd y cinio blynyddol yng Ngwesty Parc yr Wyddfa Tachwedd 23. Wedi'r cinio cyflwynwyd cwpanau gan Mr G. Evans, Garej Gwalia, Caeathro i Geraint Owen, Cilfynydd, Michael Owen, Ystrad Isa ac Elwyn Griffith, Cae Ysgubor.

PRIODAS: Priodwyd Miss Sharon Roberts, Cerrig y Rhyd a Mr Gwynfor Pierce Jones, BSc, MA, Talysarn, yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt.

# DRAENOG



### SION CORN A'I *GIAR-W*

Daeth Sion Corn yn gynnar i barti Nadolig un o gapeli Caernarfon. Oedd, roedd y plantos bach wrth eu boddau'n gwrando hanes ei daith drwy'r awyr gyda'i geirw'n tynnu'r sled llawn teganau. Yn anffodus, deallwn i'r creadur penwyn gael peth trafferth wrth geisio ymadael, a bod Rudolf wedi achosi tipyn o helynt wrth dwlcio car rhyw feifrolyn na wyddai am gastiau y car - w.


LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
AR AGOR 9-7pm 9-5pm Sadwrn
AR GAU SUL, MERCHER.
Ffôn 291
(yn ystod oriau agor)



GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC – ALLWCH CHI FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

# O BIG Y TWRCI

**Ychydig o nodiadau ar hanes y twrci fel pryd bwyd traddodiadol y Nadolig.**

**MAE'R TWRCI wedi bod yn boblogaidd fel pryd o fwyd yn y wlad hon ers tua phedwar cant o flynyddoedd bellach. Anrheg ydoedd o gyfandiroedd newydd America. Cartref gwreiddiol y twrci oedd Mecsico, ac mae'n debyg mai dyma'r cig rhataf i'w brynu yn y wlad honno. Gallai milwyr Sbaeneg o fyddinoedd y 'conquistadores' brynu twrci cyfan am bedair o fwclis! Cariwyd y twrci o Mecsico i wledydd eraill Canol a De America gan filwyr Sbaen ar eu hymgyrchoedd buddugol yn erbyn yr Indiaid brodorol.**

William Strickland o bentref bychan Boynton-on-the-wold, ger Bridlington, Swydd Efrog ddaeth â'r twrci i Brydain. Hwyliodd Strickland gyda Sebastian Cabot i archwilio traethau De America yn 1526, ac ymhen pedair blynedd, pan ddychwelodd i Brydain, daeth â thwrci gydag ef. Yn ddiweddarach, cyflwynwyd arfbais i Strickland am ei wasanaeth i'r brenin, ac un o'r arwyddion ar ei arfbais oedd twrci yn lledu ei gynffon!



Yr enw ar dwrci ym Mecsico oedd Uexoloti. Roedd yn enw rhy anodd o lawer i bobl y wlad hon geisio ei ynganu, ac felly, rhaid oedd chwilio neu fathu enw newydd arno. Nid oes neb yn sicr iawn pam y dewiswyd yr enw 'twrci'.

Mae amryw o awgrymiadau ynglŷn â'r enw. Cred rhai fod yr aderyn yn gwneud sŵn fel 'twrc, twrc, twrc', ac mai naturiol, felly, oedd ei alw'n 'twrci'!

Yn y cyfnod pan ddaeth yr aderyn i Brydain am y tro cyntaf, roedd tuedd i alw pob peth newydd yn "Turkish", efallai, oherwydd pwysigrwydd y wlad honno ar y pryd. Dywedai eraill fod pen y twrci yn edrych yn debyg i ben milwr o fyddin Twrci. Gwisgai milwyr Twrci helmed las yn cyrraedd i'r ysgwyddau, a lapelau coch iddi. Roedd pen y twrci yn debyg iawn i'r lliwiau hynny.

Daeth cig twrci yn boblogaidd iawn. Roedd mor boblogaidd fel y bu'n rhaid i'r Archesgob Cranmer ddeddfu nad oedd hawl gan ei offeiriaid i fwyta mwy nag un twrci mewn unrhyw wledd eglwysig!

Penderfynwyd ar bris 'cyfreithiol' arno, ac ym marchnadoedd Llundain roedd ceiliogod twrci yn cael eu gwerthu am chwe swllt, a chywion twrci am ddau swllt ac wyth geiniog. Erbyn 1772 roedd y prisiau wedi gostwng oherwydd fod yr aderyn yn llawer mwy cyffredin yn y wlad erbyn hynny.

Dyma'r cyfnod pan oedd tyrcwn yn cael eu cerdded i farchnadoedd Nadolig yn Llundain; y mwyafrif ohonynt o swyddi Norfolk a Suffolk, ond rhai ohonynt o gryn bellter. Mae cofnodion ar gael yn dangos fod rhai yn cael eu cerdded o Dde Cymru. Yn 1740 cynhaliwyd ras arbennig iawn rhwng haid o wyddau a haid o dyrcwn o Norfolk i Lundain. Fe'i cynhaliwyd o ganlyniad i her gan Arglwydd Rhydychen, a honnai y gallai haid o wyddau gerdded i Lundain yn gynt na haid o dyrcwn. Roedd Arglwydd Queensbury yn fodlon derbyn yr her, ac yr oedd betio trwm ar y canlyniad. Y gwyddau enillodd, oherwydd roeddynt yn gallu bwydo a gorffwys am gyfnodau byr, ond roedd y tyrcwn angen clwydo bob nos.

Erbyn 1852 roedd twrci yn bryd digon cyffredin yn ystod y Nadolig, a dyma'r cyfnod pan gyhoeddodd Kate Dickens (gwraig Charles) lyfr o'r enw "What Shall We Have For Dinner?" Yn y llyfr, nodir mai'r Cinio Nadolig traddodiadol oedd twrci wedi ei rostio, ham wedi ei ferwi, saws bara, pwdin Dolig a saws brandi, ac amrywiaeth o gnau a ffrwythau.

Yn 1890, amcangyfrifwyd gan y 'Royal Magazine' fod digon o dyrcwn yn cael eu bwyta y Nadolig hwnnw i ffurfio colofn o adar, ddeg wrth ochr ei gilydd, i gyrraedd o Lundain i Brighton!

Sgwn i faint gaiff eu bwyta eleni?

## PWNSH A PEI

Cynhelir Noson o Garolau, 'Pwnsh a Pei yn Neuadd yr Eglwys Llanberis nos Wener, Rhagfyr 20 am 7.30. Yr elw er budd Cronfa Theatr Fach Gorffwysfa.

Os dymunwch ymuno, ac os oes angen trafnidiaeth rhowch eich enwau i Mr Gwilym Rees Parry, Morannedd, Rhes Hermon.

## CANOLFAN YMARFER GWAITH CYMDEITHASOL GOGLEDD CYMRU

1. Ar Dachwedd 25 byddwn yn cyhoeddi siart 'Cyfraddau Budd-daliadau' ar gyfer 1985-86.
2. Hwn yw'r tro cyntaf i unrhyw un gynhyrchu siart o'r fath yn y Gymraeg.
3. Mae'r siart yn rhestru yn eglur:
i) y prif fudd-daliadau sydd ar gael
ii) cyfraddau'r prif fudd-daliadau am y flwyddyn
iii) rhai amodau ynghylch eu hawlio
iv) cyfeirnodau y ffurflenni perthnasol
v) nodir y ffurflenni hynny sydd ar gael yn y Gymraeg.
4. Cynhyrchwyd y siart gan y Ganolfan Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Gogledd Cymru, a'r Ganolfan Gynghori yng Ngogledd Cymru.
5. Cafwyd cymorth ariannol gan y Ganolfan Gynghori a chan Gyngor Sir Gwynedd.
6. Cafwyd cyngor gan weithwyr y Cyngor Sir sy'n arbenigo yn y maes a chan swyddogion yr Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol yn lleol.
7. Mae cyhoeddi'r siart yn dangos gwerth cydweithrediad rhwng sefydliadau statudol a gwirfoddol.
8. Yn fwy arbennig mae hyrwyddo cydweithrediad o'r fath yn nodweddiadol o ddull y Ganolfan Ymarfer Gwaith Cymdeithasol o weithio.
9. arwydd pellach o ymroddiad y sefydliadau hyn i ddatblygu'r gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.
10. Bydd y siart o ddefnydd i weithwyr o bob math yn y maes budd-daliadau, e.e., gweithwyr cymdeithasol, swyddogion prawf, gweithwyr canolfannau cynghori, gweithwyr canolfannau i'r di-waith, swyddogion undeb, etc.
11. Mae'r siart ar gael yn rhad ac am ddim gan:
Canolfan Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Gogledd Cymru, Haulfre, Ffordd Ffriddoedd, Bangor, Gwynedd LL57 2EH.
12. Am fanylion pellach holwch: Hywel Williams, Canolfan Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Gogledd Cymru, Ffôn: (0248) 354877, **neu** Miriam Griffiths (Trefnydd), C.C. Bangor, Ffordd Gwynedd, Ffôn: (0248) 352598 **heblaw** rhwng 20 a 22 o Dachwedd. Yn ystod y cyfnod yma holwch Anne Dyson (Swyddog Ardal Cynorthwyol Cymdeithas y Canolfannau Cynghori, 134b Stryd Fawr, Prestatyn, Clwyd. Ffôn: (07456) 7608.

# O BANTRI BETH




Prydau ysgafn ar ôl y Dolig.

**Fflan Sosej a Chaws**

6 owns o grwst (pastry)
8 owns o gig sosej
2 ŵy – wedi'u curo
1 nionyn bychan – wedi ei falu'n fân
$\frac{1}{2}$ llond llwy de o berlysiau cymysg
halen a phupur
4 owns o gaws wedi'i gratio
2 domato wedi'u torri'n sleisennau

Rhowliwch y crwst allan a'i roi ar waelod dysgl fflan 8 modfedd – (gan gadw rhywfaint ar ôl). Gan ddefnyddio fforc, torrwch y cig sosej ac ychwanegwch wyau, nionyn, perlysiau cymysg, halen a phupur. Tywllatwch y gymysgedd i'r ddysgl fflan.

Rhowch gaws drosto a threfnu gweddill y crwst mewn stribedi drosto. Rhowch y sleisennau tomato ar ben y cyfan.

Coginiwch y cyfan mewn popty ar wres 220°C (425°F) neu Mark 7 am rhyw $\frac{1}{2}$ awr. Gellir ei bwyta'n boeth neu'n oer.

**SYNDOD FFRWYTHAU!**

1 pwys o ffrwythau – unrhyw fath
$\frac{1}{2}$ peint o hufen dwbl
$\frac{1}{2}$ peint o iogwrt
siwgr demerara

Rhowch y ffrwythau mewn dysgl wydr. Curwch yr hufen nes ei fod yn stiff, a thywallt yr iogwrt iddo. Tywalltwch y cyfan dros y ffrwythau. Rhowch faint a fynnoch o siwgr demerara dros y cyfan, a rhoi'r ddysgl i sefyll yn y cwpwrdd rhew dros nos. Mae yma ddigon i chwech (neu bedwar barus!)

### NADOLIG Y BABAN

Ar noson oer yng ngwlad Judea dlos
Daeth Newydd Da i'r byd yn nhrymder nos;
"Cans ganwyd i chwi heddiw Geidwad dyn"
Cyd-ganodd holl lu'r nefoedd yn gytûn.

Mewn llety gwael di-nod ar gŵr y dref,
Caed baban bach a ddaeth yn aer y Nef.
Er mai cadachau oedd ei rwymyn tyn,
Daeth engyl Nef i warchod Iesu Gwyn.

Trwy'r wybren treiddiodd rhyw oleuni gwyn,
Daeth ofn a dychryn i'r bugeiliaid syn.
Er hyn yn ufudd daethant at y crud
Gan blygu'n wylaidd gerbron Prynwr byd.

O'r Dwyrain teithiodd y brenhinoedd dri
Ar eu camelod gwyn mewn rhwysg a bri;
Anrhegion gwerthfawr ddygent gyda hwy,
Ond yn y preseb llwm 'roedd trysor mwy.

Awn, awn dan ganu at y gwely gwair,
Yno'n ein disgwyl y mae Baban Mair.
Awn a phenliniwn wrth y sanctaidd grud,
Offrymwn iddo ein calonnau i gyd.

ENID JONES
Talysarn


- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Nadolig Llawen i bawb

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



CYFARCHION NADOLIG O FETHEL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth


**Anne a Dave Francis**

# TREFLYN STORES BETHEL

**Ffôn: Port Dinorwig 670237**

**DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN YSTOD EIN BLWYDDYN GYNTAF YN Y SIOP**

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**



**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**

## Antiques Ivy Cottage BETHEL

*Ffôn:*

*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*

*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# TAFARN GORS BACH LLANDDEINIOLEN

Dymuna

Bob, Mair, Steve, Sharon, Emma ac Amy

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD RAGOROL**

i'w holl gyfeillion

a chwsmeriaid hen a newydd



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

# I. MORRIS

CYFLENWYR PORTHIANT

**DALGETY SPILLERS**

**Y FACHELL**

## LLANDDEINIOLEN

**Ffôn: Y FELINHELI 670439**

## NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL ODDI WRTH BAWB YN

# GAREJ MINFFORD BETHEL

**(T.R. EVANS)**

**Ffôn: Y Felinheli 670451**




**1986**

**Blwyddyn Newydd – Car newydd!**

Rover, Maestro, Acclaim a'r Metro diguro

dewch draw i'n gweld ar unwaith!

# CINIO 'DOLIG

**DOLIG go llwm fydd hi arnom ni 'leni, er 'mod i wedi bod yn trïo pesgi un neu ddau o adar to hefo sbarion crystia'. Ond, dyna fo; ma' prisia' pob dim wedi mynd mor ddychrynllyd o ddrud. A pheth arall, tydi pob hysbyseb feddygol heddiw yn 'ich rhybuddio chi fod cig yn ddrwg i'r iechyd. Does ryfedd fod pob bwtsiar yn y wlad 'ma wedi mynd i edrach mor llwytyn.**

Ond nid fe'na roedd hi. O naci! Ers talwm, Dolig oedd yr amser i bawb stwffio'i hunain efo bwyd; a phob math o fwyd o'dd o hefyd. Sut flas tybed fyddai ar fochyn daear wedi'i rostio? Neu ben baedd gwyllt wedi'i stwffio hefo llysiau fel rhosmari, a llond 'i geg o fala' surion? Dyna i chi waith paratoi! Duwch, tydi gwragedd tŷ heddiw'n 'i cha'l hi'n rhy hawdd. Ma' hyd yn oed tyrcwn yn ca'l 'u magu hefo'u perfeadd mewn bag plastig; a'r stwffin i'w ga'l mewn bocsus carbord handi.

Garan o'dd deryn Dolig y Normaniaid. Cefndar creyr glas 'di hwnnw i'r rhai ohonoch chi sy' ddim yn gw'bod. Lle aflwydd gaech chi afa'l ar un o'r rheini heddiw? Tydi hyd yn oed Fortnum and Mason ddim yn rhoi sleisan o hwnnw yn 'i hampers Dolig. A 'chlywis i erioed am ffarm magu garan. Tipyn o job 'u cadw nhw mewn dîp litar hefyd: gormod o wastio lle rhwng 'u coesa' hirion a'u piga' troedfadd. Na, mi a'th rheini allan o ffasiwn yn reit fuan, heb sôn am y petha' od erill 'ni roedd y Normaniaid yn 'u fwyta. Be' ar wynab y ddaear tybed oedd 'karumpie, maupigyrnun a dillegrout'? Swnio'n debycach i betha' ma' plymar yn 'u hiwsio i osod sentral hiting.

Paun o'dd y peth i'w ga'l i ginio Dolig am flynyddoedd wedyn. Paun dd'udsoch chi? Ia, paun. Adar pobol fawr. Rheina sy'n ffansïo'u cynffona yng Nghastall Gwydir ac yn sgrechian ar bawb o bell. 'Faswn i ddim yn meindio troi corn gwddw amball un o'r rheini fy hun; ond 'i fwyta fo? Roedd isio Sarjant i edrach ar ôl y tacla. Teitl crand y dyn o'dd yn gofalu am y peunod o'dd 'Sergeant of Poultry'; a fo a'i weision odd yn bwydo a pharatoi'r adar ar gyfar bwrdd y brenin. Mi fedra unrhyw ddyn cyfoethog brynu paun am swllt a grôt – roedd y sgrech i'w chael am ddim!

Pluo tyrcwn a cheiliogod fydd ffarmwrs heddiw, ond doedd fiw i chi bluo paun. Gwaith y cwc o'dd tynnu'i groen o – a'r plu'n dal yn sownd! Wedyn, rwbio saim dros y cig; stwffio'i du mewn a'i rostio. Yn ystod y rhostio roedd yn rhaid tywallt melynwy-ŵy drosto, a gofalu fod y pen wedi'i lapio mewn lliain gwlyb. Ar ôl i'r cwbwl orffen gwneud, mi fydda croen y cradur yn ca'l 'i wnïo'n ôl amdano fo. Roedd 'na fwy o grandrwydd ar y plât arian nag oedd 'na o flas ar y cig. Mi fydda' rhai pobol yn peintio pig y paun yn lliw aur, gosod darn o gotwm wedi'i socian mewn brandi yn y pig a thanio'r cyfan cyn cario'r arddangosfa ar y bwrdd.



Ond mi flinodd pobol ar baun hefyd – yn enwedig y cwc druan!

Deryn poblogaidd arall oedd gwerniar; deryn tebyg iawn i'r twrci, ac roedd y brenin â hawl i ladd a bwyta elyrch hefyd. Ond roedd pobol eraill yn fodlon bwyta pob math o adar: cyffylog, creyr glas, deryn y bwn, petris, cornchwiglod a sguthan. Yn damad i ddisgw'l pryd mi gaech ehedydd mewn sôs neu benglin carw. Ond roedd 'na fynd ar bysgod hefyd. Penwaig wedi'u pobi oedd i'w cael amla'. Roedd rhai yn fwy barus na'i gilydd. Meddyliwch mewn difri' calon am Harri'r Trydydd yn rhoi ordors i Sheriff Gloucester ddal ugain samon iddo i wneud pasteiod ar gyfer y Dolig!

Wedyn, mi ddoth y twrci. O Mecsico. Roedd Harri Tudur wrth 'i fodd efo cig twrci, medda nhw, ond erbyn amsar James y Cynta' mi alla pob math o bobol ei fforddio. Mewn 'chydig iawn o amser roedd twrci yn dderyn reit gyffredin ar fuarth ffermydd y wlad 'ma, ac yn hawdd iawn 'i gael i ginio Dolig. Ond roedd cigoedd heblaw twrci'n cael 'u bwyta hefyd, ac mi fydda pobol yn hoff iawn o 'neud pasteiod.

Roedd pob matha' o gigoedd yn cael 'u rhoi mewn pastai. Dyna i chi'r resipi am Bastai Dolig yn 1773. Roedd isio cig sgwarnog, cig twrci heb asgwrn, gŵydd, petrisen, sguthan ac unrhyw dderyn arall oedd ar gael! Mi fydda pasteiod llai yn cael 'u gneud efo brain, ehedydd a mwyalchen.

Ond y resipi sydd wedi mynd â 'mryd i y Dolig yma ydi hwn: Tatws, cnau castan, llymarch (oysters), coesa' letys, wyau, llus wedi'u piclo . . . ac adar to. Diawch, toedd hi'n dda i mi luchio'r crystia 'na i'r ardd yn lle i'r bin.


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

RITA a HARRY OWEN



BRYN DAIRY

BETHEL

Ffôn: Y Felinheli 670487

*Llefrith* *Ymgymerwyr Cludiant*



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'n cyfeillion a'n cwsmeriaid oll oddi wrth

***GWILYM A MEIRWEN JONES***

**SWYDDFA'R POST**

**BETHEL**

Ffôn: Y Felinheli 670 261

BWYDYDD, MELYSION, PAPURAU NEWYDD


# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)**

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL A'R CYLCH: Dymuna pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at yr Eisteddfod, arian, tlysau, a'r gadair.

Enillwyr y tlysau: Tlws Llenyddiaeth dan 18 oed: Angharad Preis, Tlws Gwaith Llaw: Mrs Meinir Roberts, Tlws Coginio: Mrs Glenys Griffith. Tlws ccanu neu canu'r piano – am y perfformiad gorau dan 12 oed – Sioned Owen. Tlws adrodd – am y perfformiad gorau dan 12 oed: Menna Dauncey Williams.

Buasai'r pwyllgor yn falch o weld mwy yn ymuno â'r pwyllgor presennol. Os oes rhywun â diddordeb, cynhelir y pwyllgor nesaf Mawrth 10, 1986 (nos Lun) yn y Neuadd.

Oherwydd problemau, mae'n wir ddrwg gan y pwyllgor na ellir gwneud rhestr o'r rhoddion, felly derbynied pawb ein diolch gwresocaf. – (M.G. Williams, Ysgrifennydd)

DIOLCH: Dymuna Mr Eifion Roberts, 21 Bro Rhos ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch arbennig i'r Parch W.R. Williams am ei gymorth yn ystod y cyfnod.

YR URDD: Penderfynodd pwyllgor yr Urdd anrhydeddu Mrs Fanny Owen am ei blynyddoedd o waith ac ymroddiad i'r gangen ym Methel. Roedd yn chwith meddwl na fyddai Anti Fanny ar y pwyllgor wedi iddi roi gorau i'r ysgrifenyddiaeth yn ddiweddar a phenderfynwyd ei hethol yn Llywydd Anrhydeddus.

Cynhaliwyd Parti Nadolig yr Urdd yn y Neuadd nos Wener, Rhagfyr 13. Roedd gwledd arbennig wedi ei pharatoi gan y pwyllgor, cyfeillion a rhieni. Diolch o galon i'r mamau am eu cyfraniadau hael i'r noson.

Noson nesaf yr Urdd fydd yr ymweliad blynyddol â Theatr Gwynedd i weld y pantomeim. Trefnwyd dau fws i fynd â 140 o aelodau a ffrindiau i'r pantomeim nos Wener, Ionawr 10.

CYDYMDEIMLO: Ddechrau'r mis bu farw Mr Wyn Roberts, Tan y Buarth. Estynnwn pob cydymdeimlad â Mrs Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth.

## LLANRUG ETO

DIOLCH: Dymuna Mrs Lily Clarke, Isgaer, Pontrhythallt, ddiolch o galon i'w ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a galwadau a dderbyniodd ar Ragfyr 9, ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Dymuna ei chwaer, Miss Frances Williams, hefyd ddiolch yn yr un modd am y dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd hithau yn 87 mlwydd oed ar Dachwedd 28.

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ABERGWAUN

**AWST 2-9, 1986**

TOCYNNAU AR WERTH YN AWR:

CYFNOD: Pafiliwn dydd a nos – £49.00

Pafiliwn dydd a drama'r nos – £42.00

DYDDIOL: **PAfiliwn y dydd**

Dydd Sadwrn cyntaf – £3.00

Dydd Llun, dydd Mercher, dydd Gwener – £4.00

Dydd Mawrth, dydd Iau, yr ail ddydd Sadwrn – Dosbarth 1af: £5.50. Ail Ddosbarth: £4.50

**Pafiliwn y nos**

Bob nos, gan gynnwys nos Sul, Awst 3 – Dosbarth 1af: £4.00. Ail Ddosbarth: £3.00

**Drama gyda'r nos**

O nos Lun i nos Sadwrn – Dosbarth 1af: £3.50. Ail Ddosbarth: £2.50

**LLETY**

Os ydych am gael llety dros yr wythnos neu am ychydig ddiwrnodau, ysgrifennwch at Mrs Deanna Bowen, Ysgrifenyddes Llety, Swyddfa'r Eisteddfod, 3 Ffordd y Cwm, Abergwaun, Dyfed SA65 9HG. Ei rhif ffôn ar ôl 5 o'r gloch yw 0348.872636.

**CARAFANAU**

Os ydych am sicrhau safle ar y maes carafanau, danfonwch am ffurflen i Swyddfa'r Eisteddfod (cyfeiriad uchod).

**STIWARDIO**

Os ydych yn awyddus i stiwardio yn yr Eisteddfod – yn y Pafiliwn, yn y Pafiliynau ar y Maes, wrth yr Orsedd neu yn y rhagbrofion – danfonwch i Swyddfa'r Eisteddfod am ffurflen stiwardio.

# ECO'R IFANC

## DARLLENWYR IFANC



*Marian Lloyd Jones, Owain Gwyn, Irfon Jones, Carys Williams.*

Roedd cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwis Llyfrau Cymraeg yn brofiad newydd sbon i ddisgyblion Ysgol Cwm-y-glo. Trefnir y gystadleuaeth yn flynyddol gan Lyfrgell y Sir, ac mae'n ddull effeithiol iawn o ennyn diddordeb plant mewn darllen llyfrau Cymraeg. Roedd yn rhaid i'r tîm o bedwar ddarllen dau lyfr gosod yn drwyadl – er mwyn ateb cwestiynau ar eu cynnwys. Er bod ambell i hen gwestiwn cas, llwyddodd y plant i ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau. Roedd yn brofiad gwerthfawr i'r plant a dysgwyd llawer yn sgîl y gystadleuaeth.

## CLWB IEUENCTID NEWYDD



Ers dros chwe wythnos bellach fe ail sefydlwyd Clwb Ieuenctid yng Nghwm-y-glo – ar ôl saib o dros dair blynedd. Arweinydd y Clwb yw Mr Brian Wyn Griffiths, y Bontnewydd. Yn ddiweddar cynhaliwyd ffair sborion yn yr ysgol i godi arian at brynu offer ychwanegol i'r Clwb. Llwyddwyd i godi dros £125 – mae'r trefnwyr yn ddiolchgar iawn i bobl y pentref am eu cefnogaeth.

# Roc ar ôl Te

**(Adolygiad Einir Parri)**

Prif nod y rhaglen deledu Roc ar ôl Te yw gwasanaethu fel 'cylchgrawn' i'r byd pop Cymraeg. Mae i fod i roi darlun cyffredinol o'r sefyllfa sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd. Cyn y rhaglen hon cafwyd nifer o gyfresi eraill o'r un math. Roedd 'Sêr' wedi datblygu'n bur dda, ond cafwyd cam pendant yn ôl gyda dyfodiad 'Larwm'.

Ers blynyddoedd bellach, mae HTV wedi bod yn arbrofi gyda'r rhaglen hon ar gyfer ieuenctid. Maent wedi bod yn ceisio amrywio'r patrwm, y dydd a'r amser. Ar ôl 'Sêr' ar nos Sadwrn (pan oedd llawer o bobl ifanc allan mewn cyngherddau p'run bynnag) mae nos Fercher wedi'i sefydlu fel noson, ond fe fuasai rhai yn cwyno ei bod hi'n nos Sadwrn fach. Ond, wedi'r cwbl, mae'n amhosibl plesio pawb.

Mae cyflwynydd rhaglen o'r math yma yn bwysig iawn. Roedd Siân James a Jim O'Rourke ar 'Larwm' wedi llwyddo i wneud i bawb deimlo fel plant yn yr ysgol gynradd unwaith eto. O'i gymharu â'r rhain mae Kevin Davies, cyflwynydd 'Roc ar ôl Te', yn wych! Mae ef o leiaf yn gallu lolian yn ddigon naturiol, heb ddiflasu pawb sy'n gwylio.

Un peth o blaid 'Roc ar ôl Te' yw'r trawsdoriad eang a geir o grwpiau Cymru. Yn ogystal â chynnwys y grwpiau 'mawr' fel Maffia a'r Brodyr, sydd wedi hen sefydlu'u hunain, mae'n cynnwys grwpiau llai, sy'n aml o'r un safon â'r lleill. Ers dechrau'r gyfres mae dau grŵp o'r ardal yma wedi ymddangos ar y rhaglen, sef Chwyldro o Gaernarfon a Wenfflam o Benygroes. Mae'r ddau grŵp yma wedi sefydlu'u hunain yn eu hardaloedd, ond yn disgwyl am gyfle i chwarae ar hyd a lled Cymru. Gobeithio y bydd 'Roc ar ôl Te' yn dal ymlaen â hyn, yn hytrach na rhoi'u holl sylw i'r grwpiau poblogaidd – y grwpiau llai sy'n cynnal y byd pop Cymraeg.

Yn sicr, mae 'Roc ar ôl Te' yn haeddu llwyddiant. Wedi'r cwbl, hon yw'r unig raglen sydd wedi ei hanelu'n uniongyrchol at ieuenctid Cymru, ac edrychaf ymlaen gan obeithio gweld rhagor o grwpiau newydd yn cael eu cyfle.

## ADRAN BENTREF NEWYDD SBON

Mae'n braf cael clywed newyddion da am fudiad yr Urdd – yn wyneb yr holl drafferthion sydd wedi amlygu eu hunain yn ystod y misoedd diwethaf. Ychydig yn ôl clywsom bod adran bentref wedi ei ffurfio ym Mhenisarwaun, ac mae'n amlwg ei bod yn mynd o nerth i nerth.

Yn y flwyddyn newydd bydd Adran Bentref Penllyn yn cychwyn o'r newydd yng Nghwm-y-glo. Bydd croeso i unrhyw blentyn o Gwm-y-glo a Brynrefail o fewn oedran ysgol gynradd a phlant o'r un ardal yn eu **blwyddyn gyntaf** yn Ysgol Brynrefail ymuno â'r adran.

Bydd yr adran dan arweiniad Mr Idriswyn Roberts gyda chymorth Mr Deiniol Evans (ysgrifennydd), Mr Gwyn Hefin Jones (trysorydd) a nifer o rieni awyddus.

**CYFARFOD CYNTAF – IONAWR 13eg am 5.30 o'r gloch yn Ysgol Cwm-y-glo.**

## COFIWCH

Bydd Eco'r Ifanc yn ôl ar ôl gwyliau'r Nadolig. Edrychwn ymlaen am fwy o gyfraniadau ganddoch chwi – plant a phobl ifanc y fro.

- Tybed fydd rhai ohonoch wedi derbyn anrheg Nadolig go anghyffredin?
- Oes rhai ohonoch am wneud adduned Blwyddyn Newydd gwerth chweil?
- Beth oeddech chi'n feddwl o raglenni teledu S4C dros gyfnod yr Ŵyl?

GADEWCH I NI WYBOD!


**GWERSI TELYN**
i bob oed gan delynores broffesiynl (teledu a cherddorfa)
**Ffoniwch Bangor (93) 352485**



**Cwmni Cyhoeddi GWYNN Cyf., Stâd Ddiwydiannol Penygroes Caernarfon, Gwynedd Tel: Penygroes 881.797**

**Gweithiau comisiwn ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen, 1986**

'Ffarwel i Eryri' – John Hywel 80c, Rhif Cat. 5505 – Unawd contralto 19-25 oed.

'Hoffter Bro' – Megan Morris. 75c. Rhif Cat. 2506 – Parti Merched (12-16)

'Y Gylfinir' – Robert Smith. 75c. Rhif Cat. 2508 – Côr S.A. (20-30).

'Merched Tangnefedd' – John Hywel. 85c. Rhif Cat. 2510 – Côr Merched S.A. (10-20)

'Y Car' – Gareth Glyn. 75c. Rhif Cat. 4066 – Côr Bechgyn T.B. (10-20)

'Boneddwr Mawr o'r Bala' tr. Megan Morris. 75c. Rhif Cat. 2509. Côr S.S.A. (20-40)

'Moliannwn' – tr. T. Gwynn Jones. 75c. Rhif Cat. 4067. Côr Meibion T.T.B. (10-30)

**Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Ogwen, Darnau o'r catalog cyffredinol**

'Ffrwd Fach Loyw', Mansel Thomas. 90c. Rhif Cat. 5028, Unawd 10-12 oed.

'Y Pren Afalau', W.S.G. Williams. 60c. Rhif Cat. 90H01, Unawd Merched 12-15 oed.

'Breuddwyd Glyndŵr', W.S.G. Williams. 60c. Rhif Cat. 90H01, Unawd Bechgyn, 12-15 oed.

'Gyrru'r Ychen', tr. W.S.G. Williams. £3. Rhif Cat 8401, Unawd Alaw Werin allan o '20 Alaw a Dawns' (12-15 oed)

'Y March Glas'. tr. D.E. Parry-Williams. £1.95. Rhif Cat. 9017. Unawd Alaw Werin 15-19 oed.

'Y Gwanwyn Du'. T. Osborne Roberts. £1. Rhif Cat. 5011. Unawd Bas 19-25 oed.

'Cân Crwtyn y Gwartheg'. tr. W.S.G. Williams allan o '20 Alaw a Dawns'. £3. Rhif Cat. 8401. Côr dan 12 oed.

'Y Bore Glas'. tr. W.S.G. Williams. 35c. Rhif Cat. 2016. Parti Deusain dan 15 oed (8-12 oed)

'Migldi Magldi'. tr. Gareth Glyn (Cadwyn). 75c. (20-40)

'Doi Mab a Merch a Garai Gynt'. Thomas Morley. 35c. Rhif Cat. 3071. Pedwarawd 14-25 oed.


## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU BRO MADOG, Awst 1-8, 1987

Y mae Pwyllgor yr Orsedd yn gwahodd ceisiadau am y swyddi isod oddi wrth rai sy'n byw yn nalgylch yr Eisteddfod.

**CYFLWYNYDD Y FLODEUGED**: Merch ifanc, oddeutu 17 oed, i gynrychioli morynion y fro.

**CYFLWYNYDD Y CORN HIRLAS**: Un i gynrychioli mamau'r fro.

**LLAWFORYNION**: Dwy ferch, 10-11 oed, i weini ar Gyflwynydd y Flodeuged.

**MACWYAID**: Dau fachgen, 10-11 oed, i weini ar Gyflwynydd y Corn Hirlas.

Ceir manylion pellach a ffurflenni cais o Swyddfa'r Eisteddfod 7 Bank Place, Porthmadog, LL49 9AA. (Ffôn: Porthmadog 2245)

Dyddiad cau: **Ionawr 31, 1986.**

# CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

**FYDDWCH CHWI'N ANFON CARDIAU Nadolig eleni?**

**Er mai gŵyl Gristnogol yw'r Nadolig, sylwch cyn lleied o gardiau Nadolig sy'n darlunio neges yr ŵyl. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dangos lluniau golygfeydd dan eira, lluniau Siôn Corn ar ei daith drwy'r awyr, neu luniau'n cynnwys y Robin Goch.**




Ychydig dros ganrif yn ôl nid oedd Robin Goch i'w weld o gwbl ar gardiau Nadolig, ond yn raddol, dechreuwyd ei ddarlunio'n amlach ac amlach – ar frigau o gelyn, ar goets fawr, ar bwdin Nadolig, ar ddynion eira, ar eglwysi, a hyd yn oed i mewn yn y tŷ.

Daeth y Robin i boblogrwydd ar y cardiau oherwydd fod y gwasanaeth Post wedi gwella'n sylweddol, ac felly, gallai pobl anfon cardiau i berthnasau a chyfeillion. Cysylltwyd y Robin gyda lliw gwisg y postmon – a oedd y pryd hwnnw yn goch llachar. Mewn amryw o ardaloedd, dechreuwyd galw'r postmon yn 'Robin', ac yn aml clywyd pobl yn holi os oedd 'Robin wedi galw'; hynny yw, oedd y post wedi bod.

Ar gardiau cynnar gellid gweld y Robin yn gwneud gwaith y postmon; yn danfon cardiau yn ei big, yn cnocio ar ddrws tŷ neu'n sefyll i warchod parseli. Daeth y Robin Goch felly yn dderyn ffasiynol, a pharhaodd y ffasiwn o ddarlunio Robin ar gardiau Nadolig hyd heddiw, er gwaethaf y ffaith i wisg swyddogol y postmon gael ei newid i las tywyll yn hytrach na choch.

Ond mae rhesymau eraill hefyd pam fod y Robin mor boblogaidd ar ein cardiau Nadolig. Dyma'r cyfnod o'r flwyddyn pan welir yr aderyn yn cardota wrth ddrws ein tŷ. Yn oes Victoria, byddai cardiau Nadolig yn dangos lluniau o blant tlawd a Robin Goch. Roedd yn ffasiwn ymysg y bobl gefnog yn y cyfnod hwnnw i gyfrannu arian i dlodion er mwyn iddynt gael pryd da o fwyd yn ystod cyfnod y Nadolig. Gelwid y plant oedd yn cardota ar heolydd y dinasoedd yn 'Robin', ac yr oedd y prydau bwyd a gai eu paratoi ar eu cyfer yn cael eu galw'n 'ginio Robin'. Roedd penillion yn cael eu cynnwys yn rhai o'r cardiau i atgoffa'r cefnog o'r traddodiad. Dyma un neges ar gerdyn yn dangos plentyn bach yn cardota, a Robin Goch wrth ei ymyl:

*My wishes come by Robin's rhymes*
*Since he has pleased so many times;*
*For Britain's poor are still in need*
*Whom Robin's crumbs may help to feed.*

Saesneg wrth gwrs oedd iaith y cardiau cynnar, ac yn Saesneg yr oedd Cymry Cymraeg yn anfon cyfarchion i'w gilydd. Mae gennyf gasgliad bychan o gardiau Nadolig a ddaeth i aelod o'r teulu yn nechrau'r ganrif. Mae pob un yn Saesneg. Mae rhai o'r cardiau yn cynnwys lluniau 'Nadoligaidd', ond mae cyfran helaeth ohonynt yn dangos lluniau blodau, golygfeydd, a hyd yn oed un yn darlunio Castell Caernarfon. Mae'n amlwg fod rhai cardiau wedi eu hargraffu'n arbennig i ambell deulu, fel nad oedd angen iddynt sgwennu eu cyfarchion eu hunain ar y garden! Dyma ddetholiad ohonynt:




*Llun ar gardyn Nadolig a anfonwyd ar ddechrau'r ganrif hon.*

With Kind Thoughts and Best Wishes
for a
Happy Christmas and a Bright New Year
from
Mr. and Mrs. J. H. Griffiths.

Valencia Island. Xmas, 1903

*Pwy tybed oedd Mr a Mrs J.H. Griffiths, Valencia Island? ...*

Christmas 1902.

Lilian J. Owen
hopes you will have
a real jolly time
this Christmas & New Year.

"Reswaydin"
Prenton Hill

*...neu Lilian Owen, Prentcon Hill? ...*

Xmas, 1905.

With Hearty Xmas
Greetings and Best Wishes for
the New Year.
From Mr. & Mrs. J. Phillips.

173, High Street,
Treorchy.

*... neu deulu'r Phillips o Dreorci?*

## HEN BENILLION

Beth wnewch chi o'r penillion canlynol? Fe'u hanfonwyd i mi gan Mrs Pritchard, Bryn Gwynedd, Cwm-y-glo. Hen rigwm neu hen gân a arferid ei chanu ers talwm ydyw. Tybed oes mwy o wybodaeth ar gael gan unrhyw un o'r darllenwyr?

**Mae'r byd mor falch**
**A merched i gyd mor od.**
**Rhaid cael 'muff' a 'chignon'**
**A hefyd siôl 'Scot' plod**
**Rhaid cael crud, coits bach**
**A modrwy am y bys:**
**O'r fath gost yw cadw gwraig!**

**Cytgan:**
**Briodi di?**
**Na wna wir.**
**Wyt ti'n siŵr?**
**Ydw wir.**

**Penderfynu wnawn**
**I ddilyn ffordd hen lanc;**
**Fe gawn rodio'r byd**
**Ac arian yn y banc;**
**O'r fath gost yw cadw gwraig!**

Mae'r ail bennill yn fyrrach na'r cyntaf. Tybed a oes dwy linell ar goll? Efallai fod mwy o benillion na hyn yn perthyn i'r gân. Rhowch wybod!

**CYSTADLEUAETH Y MIS**

Does dim cystadleuaeth y mis hwn: rwy'n gobeithio fod nifer o'r aelodau yn paratoi sgwrs i'r Gymdeithas ar gyfer cyfarfod mis Ionawr yng Nghwm-y-glo. Byddaf yn falch o glywed oddi wrth unrhyw un sy'n fodlon helpu i gadw noson. Beth am dipyn o amrywiaeth? Sgwrs, atgofion plentyndod, chwaraeon plant, hen gân (neu fwy), casgliad o luniau neu gardiau, hen offer diddorol o fyd fferm neu o fyd y chwarel. Cysylltwch â mi mor fuan ag sydd bosibl er mwyn trefnu rhaglen ddiddorol.

Hyd yn hyn, does neb wedi cysylltu â mi ynglŷn â hanes Eos Gwynedd. Gobeithiwn gael mwy o wybodaeth erbyn rhifyn cyntaf y flwyddyn newydd.


**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth**

**J.M. JONES a'i FEIBION**
**GWAITH CERRIG BEDDAU**
**DEINIOLEN**
(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)
Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael
**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)**
**Y FELINHELI 670124 (Nos)**



**AR WERTH**
**HUMBER SUPER SNIPE 1964**
60,000 ar y cloc. Cyflwr rhagorol. M.O.T. 12 mis. Pris i'w drafod
**Ffôn: Caernarfon 3188**

**SMITHY GARAGE**
**WAUNFAWR 518**
**(W.M. CATT)**

GWASANAETH GLANHAU METAL EFO PEIRIANT ARBENNIG e.e. Olwynion Aliwminiwm, Hen Bethau, Falfiau etc.

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid oddi wrth

Huw ac Eirlys Griffith

**Llythyrdy WAUNFAWR**

Bwydydd, Ffrwythau, Papurau newydd a Llysiau Ffres

Ffôn: Waunfawr 221

---

Mae Mrs Eirlys Birch a theulu
Tŷ Bwyta Trwyddedig

**LLETY CAEATHRO**

**Ffôn Caernarfon 4753**

yn diolch i bawb a'u cefnogodd yn ystod y flwyddyn ac yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i chwi oll

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Rhys, Marian a Meirion**

**LLYTHYRDY BETWS GARMON**

**Ffôn Waunfawr 233**


---

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN
(Waun Agricultural Engineering)

**Owen Owen**

Ffôn: WAUNFAWR 253





- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda !

---

**SNOWDONIA FIRE PROTECTION**
**YR HEN EFAIL**
**WAUNFAWR Ffôn 235**

**Offer Diffodd Tân – Masnachol ac i'r Cartref**
**Goleuadau argyfwng Larwm Tân**
**Offer canfod mwg ar gyfer y cartref**
**Hyn oll, a llawer mwy yn ein siop newydd**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth David a Peter Greasley

---

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Oddi wrth

**GWALIA GARAGE CAEATHRO**



Ford

**Ffôn: CAERNARFON 3096**

---

**HUW GERAINT OWEN**

**Gosodwr Carpedi**
(A phob math o loriau)

Cil-y-mynydd
**Waunfawr**

**Rhif ffôn: Waunfawr 552**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth: Mr a Mrs Owen

---

NADOLIG LLAWEN a BLWYDDYN NEWYDD DDA oddi wrth bawb ym

MODURDY **Whiteways** WAUNFAWR

BYSIAU I'W LLOGI
*Ffôn: Waunfawr 226*

---

**EVAN DAVIES**

**Gwerthwr Glo**

Ffôn: WAUNFAWR 341

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD GYNNES I'N CWSMERIAID I GYD !

# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)**

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr â Colin Rowlands, Ty'n Coed ar golli tad.
– Â Mr Raymond Owen, Heathfield, ar golli priod.
– Â Mr Roy Jones, Cynefin ar golli mam.

LLONGYFARCHIADAU: I Bryn Griffiths, Gorffwysfa, ar ei ddyweddïad â Linda Owen o Lanrug.
– I Glenys Thomas, Gilfach, ar ei dyweddïad a Roger Watson Jones o Feddgelert.
– I Pat a Gwynedd Parry, Bron Llywelyn, ar enedigaeth mab bychan, ac i Mr R.H. Jones, Glyn Afon Isaf, ar fod yn daid a nain eto.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Tachwedd:
1. Marilyn Roberts, Bod Afon; 2. Gwynn Davies, Bryn Eithin; 3. Edgar Owen, Lloches.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw gweld bod Mr Emlyn Davies, Bodwyn, Mrs Clayton, Bro Waun a Sioned Angharad Jones, Cyrnant Lodge, yn gwella ar ôl eu harhosiad yn yr ysbyty.

YN YR YSBYTY: Dymunwn wellhad buan iawn i Mr Fred Jones, Bryn Golau, a Mr Owen Williams, Gwynfa, sydd yn yr ysbyty. Gobeithiwn eu gweld gartref cyn y Nadolig.

Dymuniadau gorau'r Ŵyl i bawb.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Tachwedd: 1. £40: Barbara Griffiths, 10 Bro Waun; 2. £25: Humphrey Roberts, Rhos Goch; 3. £10: W.M. Catt, Smithy Garage.

CANOLFAN WAUNFAWR: Noson o Garolau ac ymweliad Siôn Corn yn y Ganolfan, **nos Wener, Rhagfyr 20fed**, am 6.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb – cewch baned a mins pei.

MERCHED Y WAWR: Nos Iau, Tachwedd 28 er gwaetha'r tywydd mawr, cawsom noson hwyliog iawn yn dathlu'r Nadolig gyda chinio blasus iawn yn y Bistro, Llanberis. Cafodd pawb anrheg fechan. Yn ystod y noson penderfynwyd yn unfrydol i anfon llythyr i Ferched y Wawr yn Genedlaethol i'w hannog i yrru arian i gynorthwyo'r Urdd yn eu trafferthion ariannol. Diolchodd y Llywydd, Cadi Jones, i Pat Skidmore a Gill Brown am drefnu'r adloniant, a daeth â'r noson i ben drwy ddarllen gwaith Helen Steiner Rice, 'Ysbryd y Nadolig'.

CLWB ERYRI: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis nos Iau, Rhagfyr 5 o dan lywyddiaeth Mr Meurig Evans yn absenoldeb Dr Raymond Williams. Cafwyd anerchiad gan Mr W.A. Jones, Llanrug a llywydd y noson oedd Mr Ifan Parry, Ceunant. Bydd y cyfarfod nesaf yn gynnar yn y flwyddyn newydd, sef nos Wener, Ionawr 3, pryd y ceir anerchiad gan Mr John H. Hughes, Llanberis. Erfynnir ar bresenoldeb yr oll o'r aelodau gan fod materion gweinyddol pwysig i'w trafod yn ogystal.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Festri Croesywaun nos Iau, Rhagfyr 5 gyda Mrs Pat Parry yn llywyddu. Dymunodd Mrs Parry wellhad buan i Mrs Buddug Rowlands ac i Mr Owen Williams, Gwynfa. Llongyfarchodd Mrs Betty Griffith ar ddyweddïad ei mab, Bryn. Darllenwyd y llythyr misol ac atgoffwyd yr aelodau o'r gweithgareddau sydd i gymryd lle yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwnaed trefniadau i fynd i'r Gwasanaeth Carolau ym Mryn Menai ar nos Lun, Rhagfyr 9, ac hefyd i fynd i Westy Gwynedd yn Llanberis i Barti'r Flwyddyn Newydd ar Ionawr 2il. Croesawyd Mrs Jennifer Roberts, Tŷ Hen, Waunfawr gan Mrs Parry. Cafwyd arddangosiad ardderchog gan Mrs Roberts ar sut i wneud addurniadau Nadolig. Cyfeiriodd yr aelodau at ddawn anghyffredin Mrs Roberts a'i ffordd hynaws o gyflwyno ei sgwrs. Diolchwyd iddi gan Mrs Morfa Evans. Enillwyd y raffl a roddwyd gan Mrs Wynn Jones, gan Mrs Mary B. Davies.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Yn ystod mis Rhagfyr cafwyd cyfarfod yn y Ganolfan gyda sgwrs ddifyr iawn gan Mrs Mary Vaughan Jones ar ei thaith i Rwsia. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Myra C. Turner. Erfynnir ar i'r aelodau gyflwyno cwestiynau ar gyfer rhaglen o 'Seiat Holi' sydd i'w chynnal nos Lun Ionawr 13 yn y Ganolfan. Y panelwyr fydd Mrs Meg Dafydd, Glanfa, Miss Awel Irene, Caernarfon, Mr Meurig Williams, Caernarfon a Mr John Roberts Williams, Llanrug, gyda Mr Iolo Huws Roberts, Bodrida yn llywydd. Dylid rhoi'r cwestiynau i'r Ysgrifennydd Mr Rol Williams, erbyn Ionawr 4. Os am ymuno â'r Gymdeithas fe ddylid gwneud hynny cyn Rhagfyr 31.

CLWB GWYRFAI: Roedd Rhagfyr 5 yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes Clwb Gwyrfai. Yn ogystal â mwynhau ein cinio Nadolig yn y Ganolfan roeddym hefyd yn dathlu ugain mlynedd er sefydlu clwb henoed yn y Waun. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch Barry Thomas, a chawsom y pleser o gyfarfod â Mrs Thomas. Ar ôl dymuno'n dda i'r Clwb croesawodd y Rheithor ein gwesteion – sef y Parch J.D. Roberts a Mrs Roberts; y Parch a Mrs Trefor Jones a Mr Leslie Jones, prifathro ysgol y Waun. Mr Roberts oedd y llywydd cyntaf a rhoddodd amlinelliad o sefydlu'r Clwb ym 1965. Blwyddyn pan oedd Sefydliad y Merched yn dathlu eu hanner can mlynedd a chais o'r Pencadlys yn Llundain am i bob cangen ymgymeryd â rhywbeth a fyddai o fudd i'w hardal.

Talodd Mr Roberts deyrnged i'r diweddar Mr Idris Jones fu'n arweinydd a roddodd sylfaen mor gadarn i'r Clwb. Y diweddar Barch N. Nicholson ddilynodd Mr Roberts fel llywydd, ac ar ôl ei farwolaeth ymgymerodd y Parch Trefor Jones â'r gwaith, ac yn ei sgwrs soniodd am y pleser a gafodd o ddod i adnabod yr aelodau. Mae ein dyled yn fawr iddo am ei ffyddlondeb a'i arweiniad. Ar ymadawiad Mr Jones i Lanfairfechan flwyddyn yn ôl, buom yn lwcus iawn i'n llywydd presennol y Parch Barry Thomas ddangos yr un ymrwymiad i'r Clwb, ac rydym yn cydnabod ein dyled iddo fel arweinydd, ynghanol ei holl ddyletswyddau fel Ficer y Plwyf.

Siaradodd Mr Leslie Jones am y cysylltiad clos sydd wedi parhau rhwng yr ysgol a'r Clwb er lles i'r plant ac i'r henoed.

Roedd pryd o fwyd ardderchog wedi ei baratoi ar ein cyfer gan Mrs Carrie Owen, y Becws gynt, gyda help Mrs Lena Jones, ac roedd Mrs Glenys Williams, Ty'n y Weirglodd a Mrs Myra Turner, Collfryn wedi crasu cacennau arbennig a blasus yn rhodd i'r Clwb. Diolchodd y Rheithor iddynt ac i bawb oedd wedi cyfrannu i'r achlysur ac yn enwedig i Mrs Eaglestone, Mrs Eluned Roberts a Mrs Jennifred Jones sydd wedi bod mor gyson yn ein helpu. Diolch hefyd i'r Clwb Ieuenctid am baratoi'r neuadd a'i haddurno. Hefyd i Mrs Idris Jones ein hysgrifenyddes weithgar a Mrs Mary Lloyd Jones y trysorydd am yr holl drefniadau ynglŷn â'r dathlu.

Buasem yn falch iawn o groesawu aelodau ifancach i gadw'r Clwb ymlaen am 20 mlynedd arall. Anfonwyd cyfarchion at Mr Owen Williams, Gwynfa sydd ar fin dod o'r ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Emlyn Davies, Bodwyn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u hymweliad i'r ysbyty a gartref.

YR URDD: Eleni eto cawsom orig o ganu carolau yng nghwmni Dafydd Iwan ac aelodau'r Urdd. Braf oedd gwrando ar y plant a Dafydd yn morio canu i gyfeiliant cyn-aelodau o'r Adran, sef Iwan, Siân, Karen ac Elliw, a chawsom eitem gan barti canu a hyfforddwyd gan Rhian Ellis. Enillwyd y raffl gan Carys Jones a Heulwen Huws. Casglwyd £40 tuag at gronfa Plant Mewn Angen a hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn am gefnogaeth y pentref.

Bydd tymor yr Urdd eleni yn dirwyn i ben gyda disco i holl aelodau'r Urdd yn y Ganolfan.


**CARPEDI GLÂN!**
Mynnwch driniaeth
**STIMVAK**
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
**TEGID PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291**
**Hefyd ail-osod carpedi**
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb**



Mae
**LLEUFER a NELMA PRITCHARD**
**CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR**
yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.





**AR WERTH**
**Beic BMX** lliw arian, 4 gêr, ffitio hogyn 8-12 oed. **£25. Osian Gwynedd (Waunfawr 587)**
**Esgidiau pêl-droed** Adidas, mewn cyflwr ardderchog, maint 1. **£5. Osian Gwynedd (Waunfawr 587)**







Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**EDGAR, CARYS, ELAIN, GWENNO, a DEWI; TOM, ANNIE, NERYS a GLENYS**
**YSTORFA TŶ NEWYDD**
**WAUNFAWR 594**
Bwydydd, Melysion, Ffrwythau a Phapurau Newydd
Dewch i weld ein siop ar ei newydd wedd





**Pnawn Sadwrn, RHAGFYR 27**
**Stâd Ddiwydiannol LLANDEGAI**
**RASUS JALOPI**
(Manylion llawn ar bosteri ac ar y radio yn nes ymlaen)
Ffurflenni cystadlu gan Erddyn Davies Bangor 355416 neu Walter Williams, Bethesda 601167 neu mewn modurdai lleol
**DOWCH YN LLU I'R HWYL A'R CYFFRO**
Mynediad: £1. Parcio am ddim
Yr elw at Eisteddfod yr Urdd 1986



**Tŷ Ar Werth**
**9 Rhes Marian Deiniolen**
2 ystafell wely; baddon; 2 ystafell fyw a scyleri; gardd i'r ffrynt a'r cefn – mewn cyflwr glân a destlus trwyddo
**LLANBERIS 871023**

# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

Penillion a gyfansoddwyd gan Mrs Gwladys Evans, Gallt y Foel, ar achlysur Pen-blwydd Cangen Deiniolen o Ferched y Wawr yn 10 oed.

**Wele ni yn dorf gariadus**
**Wedi cwrddyd yma'n awr**
**Yma i ddathlu 10 pen-blwyddyn**
**Achos Merched glân y Wawr**
**Rhai yn ifanc a phrydweddol**
**Rhai yn myned braidd yn hen**
**Mwy sydd eisoes wedi'i dreulio –**
**A'r trwyn yn nesu at yr ên!**

**Hyfryd gweld yr hen wynebau**
**Yn galw heno ar eu hynt.**
**Rhai fu'n weithgar lawer blwyddyn**
**Hoelion wyth yr achos gynt.**
**Merched tawel di-ymhongar**
**Ambell dro'n rhy dawel braidd**
**Ond yn sefyll yn y rhengau**
**Ac yn Gymry da i'r gwraidd.**

**Diolch i bob un fu'n selog**
**Trwy yr holl dymhorau maith**
**Cadw'r fflam o hyd i losgi**
**Ac ymddiddori yn y gwaith**
**Do, bu llawer taith ddifyrus**
**A gwesteion ffraeth eu dawn**
**Llawer sgwrs ar losg faterion**
**Llawer paned flasus iawn.**

**Ond mae mwy i'n cyfarfodydd**
**Mwy na phaned, mwy na thaith,**
**Mae'n gymdeithas saif dros Gymru**
**Ac ni fyn wadu yr hen iaith.**
**Iaith y 'Steddfod, iaith yr ysgol**
**Iaith capeli er cyn cof**
**Iaith sy'n ffynnu, er ei sengi**
**Iaith aelwydydd hen ein bro.**

**Mae yn hyfryd gweld wynebau**
**Siriol, eto'n dod ymlaen**
**Arnoch chwi mae'r cyfrifoldeb**
**I gario'r achos gyda graen**
**Cymry ydym, pam raid i ni**
**Gywilyddio am y ffaith?**
**Byddwn falch o'n traddodiadau**
**Ein Gwlad, ein Gwerin hoff a'n Hiaith.**
**GWLADYS EVANS**

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol o'r Sefydliad nos Lun Rhagfyr 2 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams yr is-lywydd yn absenoldeb y llywydd Mrs Eirlys Lloyd Jones.

Y VCO oedd Mrs Maud Williams, Caernarfon, yn cael ei chynorthwyo gan Mrs Jennie Roberts a Mrs Carol Houston, Brynrefail. Darllenodd Mrs J.E. Williams y llythyr misol, gyda Mrs Marian Williams yr ysgrifennydd yn darllen cofnodion y flwyddyn. Cafwyd adroddiad ariannol gan Mrs Len Hughes y trysorydd. Diolchwyd i Mrs Maud Williams a'i chynorthwywyr gan yr is-lywydd. Enillwyd y raffl gan Mrs Gwen Hughes. Rhoddwyd y te gan y pwyllgor. Y swyddogion am 1986 fydd:

Llywydd: Mrs Rita Parry Jones; Is-lywydd: Mrs J. Eirlys Williams; Ysgrifennydd: Mrs Marian Williams; Trysorydd: Mrs Gwen Hughes; Pwyllgor: Mrs Eirlys Lloyd Jones, Mrs Gwen Hughes, Mrs Rita Parry Jones, Mrs J. Eirlys Williams, Mrs Beryl Hughes, Miss Beti Williams, Mrs Marian Williams, Mrs Manon Wyn Williams, Mrs Eirian Jones, Mrs Beti Wyn Davies.

Enillwyr y gystadleuaeth gwneud 'addurn bwrdd' oedd:
1. Mrs Gwen Hughes, 2. Mrs Nancy Rowlands, 3. Mrs Rita Parry Jones.

**Bydd y cyfarfod nesa ar Ionawr 13.**

MARW: Yn sydyn ddydd Gwener, Tachwedd 22 bu farw Mrs Olwen Williams, 7 Tan y Foel, Gallt y Foel yn Ysbyty Clatterbridge, ar ôl gwaeledd o 9 wythnos yn Ysbyty'r Royal Lerpwl.

Yr oedd yn wraig i'r diweddar Goronwy Wyn Williams, ac wedi byw yn Neiniolen am 37 mlynedd, er yn wreiddiol o Lerpwl. Yr oedd yn boblogaidd iawn yn yr ardal ac ar ôl ymddeol o siop Delicatessen ei chwaer ym Mangor, bu'n cynorthwyo gyda'r gwasanaeth 'Prydau ar Olwynion'. Bydd hiraeth amdani gan ei theulu a llawer o'i ffrindiau. Gadawodd fab Alan, a'i wraig Gill, a'u merch fach Michelle, ac hefyd ei chwaer, May.

Cynhaliwyd yr angladd ddydd Iau, Tachwedd 28 gyda'r gwasanaeth dan ofal y Parch Trefor Lewis yng Nghapel Cefn y Waen ac wedyn ym mynwent Macpelah.

Rhoddwyd y cyfraniadau i Ymchwil Canser.

Y SEINDORF: Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill y drydedd wobr yng Nghei Cona ddydd Sadwrn Tachwedd 23. Cafwyd gwobr Cwpan Llandudno i'w chadw am flwyddyn. Fe gynhelir pwyllgor blynyddol y Seindorf **nos Sul Ionawr 12 am 7 o'r gloch yn y Bandroom.** Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Nellie Hughes, Erw Fair ddiolch i'w theulu, cymdogion, a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ystod ei phrofedigaeth fawr o golli ei hannwyl fab Griff. Diolch am y llu cardiau, llythyrau, galwadau ffôn ac ymweliadau. Bu pob ymweliad yn gymorth mawr iddi. Dymuna ddiolch i Mrs Pleming, Maes Eilian, Dinorwig am ei charedigrwydd a'i ffyddlondeb yn ystod ei gwaeledd a'i phrofedigaeth. Diolch o galon i chwi oll.

DYMUNIADAU GORAU i Mrs R. Lewis, 1 Marian Terrace ar gyrraedd ei 91 oed yn ddiweddar, gan ddymuno iechyd iddi am rai blynyddoedd eto.

DIOLCH: Dymuna Mrs Lewis ddiolch o galon i'w holl deulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau anrhegion a blodau ac am y galwadau ffôn a gafodd. Diolch o galon i chwi oll.

DIOLCH: Dymuna Miss Ciss Rowlands, Pen yr Olchfa, Clwt-y-bont ddiolch i bawb am y cardiau a dymuniadau da a dderbyniodd tra yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, hefyd ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a chyfeillion oll. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH: Dymuna Delyth V. Williams, 12 Stryd Deiniol ddiolch i'w mam a'i thad, teulu a'i ffrindiau oll am y llu anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

DIOLCH: Dymuna Priscilla a Moss Williams, Wylfa, Penincline ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am anrhegion, cardiau a dymuniadau da a gawsant ar achlysur dathliad eu priodas aur.

LLONGYFARCHIADAU: a dymuniadau da i Wendy Wyn Jones, Deiniol House, High Street ar gyrraedd ei 18 ar Ragfyr 25. Oddi wrth Dad, Mam, Edwina a Dick.

DIOLCH: Dymuna Edwina a Richard R. Thomas, ddiolch yn fawr iawn i'w rhieni, perthnasau, cyfeillion a phobl yr ardal am yr holl anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas ar Hydref 5. Byddant yn ymgartrefu yn 3 Green Terrace, Deiniolen.


## AR WERTH

Mini Clubman – L reg. Angen ei drin. Bargen am £160.
Cabinet dal teledu a 'video'. Un mawr. Gwerth ei weld. £150.
Ffôn Llanberis 871330


I'R ALMAEN: Erbyn hyn, y mae'r gwaith recordio rhaglenni Trebor Edwards ar gyfer S4C wedi dod i ben i Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin. Gobeithiai Anette gael dipyn o seibiant cyn y Nadolig, ond nid felly mae hi i fod. Ychydig ddyddiau cyn y Nadolig, bydd Annette yn hedfan i Munich, a dod yn ôl drannoeth. Tra bydd hi yno, bydd yn cyfeilio i Aled Jones. Mae Aled wedi cael gwahoddiad i ymddangos ar deledu'r Almaen: bydd yn canu 'Dawel Nos' yn yr iaith Almaeneg.

Y CLWB IEUENCTID: Trosglwyddwyd £25 i Apêl y Sganner gan y Clwb Ieuenctid ar ôl taith gerdded i ddathlu Blwyddyn Rhyngwladol i'r Ieuenctid.

Y cerddwyr oedd: Paula Thomas, Sylvia Owen, Ieuan Griffiths, Ruppert Wiggans, Ruth Jones, Karen Jones, Iolo Griffiths, Ceri Williams.

CYNGOR EGLWYSI: Yn ôl yr arfer cynhelir Gwasanaeth Nadolig dan nawdd y Cyngor. Eleni Mr a Mrs John Jones, Ceris, sy'n gyfrifol am lunio'r Gwasanaeth, a gynhelir yng nghapel Ebenezer, am 5.30 pm, nos Sul, Rhagfyr 22. Gwnewch ymdrech arbennig i fod yn bresennol i brofi naws y Nadolig trwy'r cyflwyniadau sydd wedi'u trefnu – croeso cynnes i bawb.

YR YSGOL FEITHRIN: Cafwyd Ffair Nadolig Iwyddiannus iawn yn ddiweddar er gwaetha'r tywydd mawr. Dymuna pwyllgor yr Ysgol Feithrin ddatgan eu diolchgarwch i bawb am eu cefnogaeth, ac am eu rhoddion o nwyddau ac arian. Diolch arbennig i Mr David Williams am bob cymorth ar y noson, ac wrth gwrs i Siôn Corn (Mr Dafydd Evans) a roddodd gymaint o foddhad i'r plant. Diolch yn fawr iawn a Nadolig Hapus i chwi i gyd. Llongyfarchiadau i Anti Jina a'r teulu ar enedigaeth mab bach, Ioan Gwynedd.

## DOSBARTH YSGOL SUL DINORWIG M.C.



*Diolch i Mrs J.S. Roberts, Elan Wen, Llanrug am anfon hwn i ni. Llun ydyw o un o ddosbarthiadau Ysgol Sul Dinorwig MC. "Mae'r oll wedi huno," ysgrifenna Mrs Roberts, "a'r olaf oedd Arthur Lloyd Roberts." Yr athro oedd Thomas Jones-Parry, Tan-y-bryn, Dinorwig, tad Mrs Roberts.*

*Oes rhai ohonoch yn gwybod rhagor?*

# DINORWIG

**GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)**

CROESO GARTREF o Ysbyty Gwynedd i Miss Margaret J. Jones, Foel wedi triniaeth lawfeddygol. Pob dymuniad da am wellhad pellach.

BU BORE COFFI yn y Ganolfan ar Ragfyr 2 o dan nawdd yr Ysgol Feithrin. Gresyn fod y tywydd mor anffafriol iddynt.

BU TE'R CHWIORYDD yn Festri Dinorwig MC Rhagfyr 5. Rhoddwyd y te gan Mrs Nellie Williams, 2 Bro Elidir.

DYMUNIADAU GORAU'R tymor i'r ardalwyr, a'n cofion at bawb sy'n wael ac yn cwyno yn yr ardal. Gwellhad buan i chwi.

STORM: Oherwydd gerwinder y tywydd Saboth Rhagfyr 1 eleni ni chynhaliwyd gwasanaeth yn yr un o'r addoldai. Cafwyd peth difrod i doau ym Maes Eilian gyda'r storm.

## CYFARFOD CYHOEDDUS

**Cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn y GANOLFAN am 7.00 NOS FAWRTH 14 IONAWR 1986**

Yn y cyfarfod byddir yn trafod awgrymiadau ar gyfer gwella ansawdd bywyd yn y pentref. Pwysir arnoch i wneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol.

# FFUG EISTEDDFOD BRO ECO'R WYDDFA

## Nos Wener, 7fed o Chwefror am 7.30 yn Ysgol Brynrefail Llanrug

**Beirniad: R. Alun Evans, B.B.C., Bangor**
**Arweinydd: Deiniol Hughes, Caeathro**

Ydi, ar ôl cyfnod o ddwy flynedd, mae'r eisteddfod ffug yn ei hôl! Mae'n amlwg o'r holl holi a fu ynglŷn â'r eisteddfod fod nifer ohonoch wedi gweld ei heisiau fis Chwefror diwethaf. Wel, dyma'ch cyfle. Daeth y tymor gwirion heibio! Dyma'r cyfnod y bydd pobl barchus y fro yn anghofio'u parchusrwydd ac yn dechrau bwrw ati yn eu pentrefi i ymarfer eu doniau dwl. A'r uchafbwynt – yr eisteddfod ei hun ym mis Chwefror a'r brwydro am Darian Banc y Midland a'r teitl Pentref Gwirionaf y Fro. Dyma'r rhaglen: pob hwyl gyda'r paratoadau.

### RHAGLEN

**CYSTADLAETHAU LLWYFAN**

1. Sioe Ffasiynau: Dillad addas ar gyfer tri aelod o'r teulu brenhinol
2. Cryg adrodd i gyfeiliant 'catarrh' (Caeth neu rhydd)
3. Grŵp Roc Pensiynwyr
4. Deialog: Sut i beidio ymweld â chlaf
5. Cystadleuaeth consurio
6. Perfformiad meddw (**Actio** yn unig)
7. Uchafbwynt y noson! Perfformiad o ffilm ddistaw. (Caniateir defnyddio cerddoriaeth fel cefndir)

**CYSTADLAETHAU BARDDONLLYD A LLETHOL**

8. Cerdd: 'Streic yr Athrawon'
9. Parodi ar 'Eifionydd' (R. Williams Parry) neu 'Aberdaron' (Cynan)
10. Gwynfydau Cyfoes
11. **Y Bedol Ryddiaith**: Llythyr caru oddi wrth un anifail i'r llall

**ADRAN CLOFF O GREFFT**

12. Unrhyw gyfrwng. Anrheg Ffolant i unrhyw berson o'ch dewis.
13. Cartŵn: Agored

**ADRAN BRO'R ECO AR WASGAR**

14. Deg rheswm pam na ddof byth yn ôl i fyw i fro'r Eco

Gosodir cystadleuaeth llinell goll noson yr eisteddfod.
Unrhyw fanylion pellach cysylltwch â'r Trefnydd:
Miriam Hughes, 'Yr Allt Deg', Cwm-y-glo, Caernarfon (Ffôn: 870416)

**PWYSIG**

**Cyfansoddiadau Rhif 8,9,10,11,13 a 14 i fod yn llaw y Trefnydd erbyn dydd Sadwrn Ionawr 25.**
**Cystadleuaeth 12 (Anrheg Ffolant) i'w beirniadu ar y noso,.**

# RHODDION

**Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r 'Eco'.**

£5: Priscilla a Moss Williams, Wylfa, Deiniolen; Mrs J.S. Roberts, Elan Wen, Llanrug.
£3: Mrs Nellie Hughes, Erw Fair, Deiniolen; Mrs Lily Clarke, Isgaer, Pontrhythallt.
£2: Edwina a Richard Thomas, Deiniolen; Mrs R. Lewis, Marian Terrace, Deiniolen; Mr John Peris Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig; Mr a Mrs Eric Wyn Jones, 17 Bryn Tirion, Penisarwaun; Mrs . Owen, Rhydfadog, Deiniolen; Mrs E.M. Jones, 20 Maes Padarn, Llanberis; M. Williams, 3 Bro Syr Ifor, Tregarth.
£1: Delyth V. Williams, 12 Stryd Deiniol, Deiniolen; Miss Ciss Rowlands, Pen yr Olhfa, Clwt-y-bont; Mrs Nan Owen, 23 Rhydfadog, Deiniolen.


Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

**GWYNETH ROBERTS**
**84 Stryd Fawr, Llanberis**
**Ffôn: 870491**

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION





Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

**BECWS ERYRI**
**Stryd Fawr, Llanberis 870491**


# FFARWELIO Â WILLIAM MORGAN

"Dwi am fynd i'r Mericia," ebe William Morgan wrthyf.

Edrychais arno yn syn.

"I'r Mericia, William Morgan?" gofynnais iddo.

"Ia, dwi isio gweld dipyn ar yr hen fyd yma. Ac yn y diwadd ychydig iawn o fusnas mae dyn fel fi yn ei neud mewn lle fel hyn. Ddim llawar o gynnydd wsti."

Dyn tal, cryf; gŵr masnach rhagorol yr olwg, ac ysgwyddau yn ddigon llydan i ddal unrhyw faich. Dyna William Morgan.

Efe ydoedd y dyn mwyaf blaenllaw, nid yn unig yn ei gapel, ond yn y pentre. Yr oedd yn gerddor gwych, yn llenor rhagorol, yn fasnachwr llwyddiannus, ac yn siaradwr cyhoeddus penigamp. Heblaw y pethau hyn oll, yr oedd yn hynod o hael gyda'i boced. Rhoddai ei law ynddi a thynnai hi allan yn llawn. Am hynny, efe ydoedd y dyn mwyaf poblogaidd yn y cylch.

Ond heb ei fai, heb ei eni. Yr oedd rhyw chwilen yn ei ben. Ac achosai'r chwilen, y tro hwn, iddo fynd i'r Mericia o ganol ei boblogrwydd.

Nid myfi ydoedd yr unig un a synnwyd, ond bron pawb. Dyna'r pwnc ar bob aelwyd, yn y trên chwarel, yn y siop, ac hyd yn oed yn y Dosbarth Ysgol Sul yn aml iawn. William Morgan yn mynd i'r Mericia!

Bwriadai hwylio ym mis Awst, ond ai at ei chwaer am fis i "setlo pethau," cyn gadael yr Hen Wlad, ys dywedai.

Nid oedd pobl y pentre am iddo fynd heb wneuthur rhyw sylw o'r peth. Ffurfiwyd Pwyllgor i drefnu cyfarfod ymadawol iddo, ac hefyd i roi ryw gydnabyddiaeth o'i waith gwerthfawr.

Trefnwyd i'r cyfarfod fod ar Fehefin 15, ar nos Wener "cyfri mawr" yn Neuadd y Pentre.

Daeth y noson. Addurnwyd y neuadd gan blant yr ysgol. Llywyddwyd yn ddeheuig gan y Parch Alun Hughes, gweinidog newydd Bethel. I ddechrau'r cyfarfod canwyd "Cartref" gan brif gantores y pentre, nes peri i ddagrau dreiglo i lawr gruddiau pobl na fuont oddi cartref erioed.

Eisteddai William Morgan yng nghongl y llwyfan, yn benisel. Canodd côr plant yr ysgol, ac aed trwy nifer o eitemau diddorol, ynglŷn ag ymadawiad Cymro â'i wlad.

Yna galwyd ar y Cynghorydd J.R. Humphreys i ddweud gair, cyn i hynafgwr y pentre anrhegu William Morgan.

Siaradodd gyda theimlad.

"Ryw hen gwarfod ydigon cas ydyw cwarfod ymadael â rhywun. Mae'n well gen i gyfarfod croesawu rhywun o lawer. Fel y gwyddoch i gyd, y mae Mr Morgan wedi bod yn hynod o garedig, ac yn flaenllaw iawn gyda phopeth yma. Gresyn ei fod am ein gadael. Ond ni fu ddrwg i neb na fu dda i rywun. Bydd yma fwlch mawr ym mhob cylch ar ei ôl, a bydd twll mawr ym mhoced trysorydd llawer o sefyldiadau hefyd." Aeth ymlaen dan ganmol, ac wrth gloi dywedodd, "Y mae hiraeth am y byw yn waeth nag am y marw."

Yna anrhegwyd ef â ffon brydferth, ac yng nghanol bonllefau a churo dwylo byddarol, cododd ar ei draed i geisio dweud gair, ond nid aeth ymhellach na "Diolch yn fawr."

Siaradwyd gan amryw wedi hynny, yr oll i'r un perwyl. Yr oedd sebon meddal yn rhad y noson honno. Dymunai pawb lwyddiant iddo ar ei lwybr newydd.

Ond yn sydyn, cododd ei ben o'i blu, a daeth ymlaen i'r llwyfan a dweud,

"Gyfeillion, y mae eich teimladau caredig yn fy llethu, ac mi rydw i wedi gneud fy meddwl i fyny mewn tri munud. Â i ddim i'r Mericia rŵan; mae'n well gen i aros yn yr hen wlad, efo chi. Diolch yn fawr iawn i chi."

A thorrwyd y cyfarfod i fyny, ac aeth pawb adref, yn dyfalu pwy oedd y ffŵl mwyaf, hwy ynteu William Morgan.

Ni chafodd Côr y Plant ganu "Yn iach iti Gymru" wedi'r cwbl.

MEDWEN

# BRYNREFAIL

**Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)**

HENADURIAETH ARFON: Dydd Mawrth, Rhagfyr 3 yng Nghapel Brynrefail MC fe gyfarfu Henaduriaeth Arfon. Y llywydd oedd y Dr Gwilym A. Jones, Bangor. Arweiniwyd mewn defosiwn ar ddechrau'r cyfarfod gan y Parch Michael Thomas, Bangor. Yr organyddes oedd Miss Lowri Prys Roberts. Cafwyd hanes yr achos ym Mrynrefail gan y gweinidog y Parch John Morris (ynghyd â'r swyddogion a oedd yn bresennol). Rhoddwyd prif anerchiad y pnawn gan y Parch John Morris, a agorodd ar 'Y Weinidogaeth'. Mwynhawyd te ardderchog a baratowyd gan chwiorydd y capel, ac fe ddiolchwyd iddynt gan y Parch D. Lloyd Williams a'r Parch John Morris. Ymatebodd Miss Lowri Prys Roberts ar ran y chwiorydd.

TE PARTI'R PLANT: Bwriedir cynnal te parti'r plant nos Fercher Rhagfyr 18 am 3.45 yn yr Ysgol Fach. Bydd croeso i blant y pentre ddod i'r parti hwn.

**EGLWYS M.C. BRYNREFAIL**
**YN EISIAU**
**GOFALWR**
**i ddechrau yn Ionawr, 1986**
**Manylion a thelerau gan Dafydd Ellis, Gweledfa. Ceisiadau at Bwyllgor yr adeiladau, trwy law Dafydd Ellis, Ysgrifennydd.**



# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Gwnaed elw o £143.68 yn dilyn Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Tachwedd 28. Carem ddiolch i'r mamau brwdfrydig a wnaeth y trefniadau, i staff y gegin, ac i bawb fu'n gweithio mor ddiwyd i wneud y noson yn llwyddiant. Diolch i Mr a Mrs Len Jones am agor y noson ac am eu rhodd haelionnus. Diolch hefyd am gael defnyddio Neuadd yr Eglwys.

Bnawn Mercher, Rhagfyr 18, am 1.15 pm cynhelir Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Eglwys y Santes Helen. Gwneir casgliad gwyn at achos da yn ystod y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

Bydd yr ysgol yn cau am **1.00 o'r gloch** bnawn Gwener, Rhagfyr 20, ac yn ailagor Ionawr 6. Rydym yn berffaith sicr y daw Siôn Corn i dŷ pob un o'r plant ym Mhenisarwaun gan eu bod yn blant mor dda! Nadolig Llawen Blant!

YR URDD: Tachwedd 28, daeth 48 o blant i'r ysgol i chwarae'r gêm ddoniol 'Chwilen'. Cafwyd 6 gêm gyffrous ac wedi cyfri'r marciau, Seth a enillodd.

Mwynhaodd y plant 'Gwis' hynod o ddiddorol gyda Glyn Evans, nos Fercher Rhagfyr 4 Rhannodd y plant i 4 tîm – Teirw, Crocs, Llewod a'r Teigrod. Y Crocs a orfu gyda 40 o farciau a'r Teirw yn dynn wrth eu sodlau hefo 38 o farciau. Yn ôl eu cydnabyddiaeth gwresog ar ddiwedd y cwis, rwy'n siŵr y dowch chi yma eto i roi'r un math o gwestiynau iddynt, gewch Mr Evans? Diolch yn fawr ichi am noson ddifyr ac addysgiadol dros ben.

Wel, wedi eu bwydo nhw reit dda hefo gwybodaeth gyffredinol nos Fercher, nos Iau fe aeth rhai o'r aelodau i Fethel i gael Cwis yn erbyn aelodau Urdd y Pentref. Richard Llwyd oedd yr holwr, a chafwyd gornest galed. Fe fwynhaodd tua 80 o blant eu hunain yn fawr iawn – pawb yn cael cyfle i gymryd rhan. Cyfartal oedd y ddau dîm ar ateb cwestiynau – ond roedd un dasg ar ôl – ffitio jigsô o siroedd Cymru oedd y dasg. Penisarwaun a enillodd – eiliadau yn unig oedd ynddi! Diolch i chi blant Bethel am noson gyfeillgar, a diolch i chwithau'r mamau am eich croeso cynnes a'r baned boeth!

Edrychir ymlaen am eich cwmni yma ym Mhenisarwaun rhywbryd yn 1986.

Diolch i rieni Penisarwaun a gludodd y plant i Fethel.

Gan fod y plant wedi mwynhau eu hunain gymaint y llynedd yn canu hefo Arwel Jones, cytunodd i ddod eto eleni, felly edrychwn ymlaen at nos Fercher, Rhagfyr 11.

PÊL-DROED: Bu nifer o fechgyn dan 14 oed yn chwarae pêl-droed yn y Ganolfan Hamdden, nos Lun, Tachwedd 25, yn erbyn timau o adrannau pentref Cylch Eryri. Nid oeddent yn gyntaf, nac yn olaf! Yr hyn oedd yn bwysig eu bod wedi mwynhau eu hunain yn arw. Cafodd y bechgyn dan 11 oed gyfle hefyd nos Lun, Rhagfyr 9. Do fe gawsant noson ddifyr dros ben. Diolch i bawb a gefnogodd yr hogiau.

Cofiwch blant mai **nos Fawrth Rhagfyr 17** y cynhelir Disgo'r Urdd gyda Dewi Lake. Bydd pob math o ddanteithion yn eich disgwyl yn Neuadd yr Eglwys am 6.00 p.m.

PANTOMEIM 'GO FFLAMIA': Yn Theatr Gwynedd, nos Lun, Rhagfyr **30**. Bydd bws yn cychwyn o King am **6.16 p.m.** ac yn dychwelyd o gwmpas **9.30 i 10.00 p.m.**

CAPEL BOSRA: Cynhelir Gwasanaeth Nadolig gan blant yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch fore Sul Rhagfyr 22. Stori Papa Panoff fydd ganddynt eleni.

Bydd Parti Nadolig y plant ddydd Gwener Rhagfyr 20 yn Neuadd yr Eglwys.

EGLWYS Y SANTES HELEN: Dathlodd Mrs Mary Jane Roberts, 5 Llys y Gwynt ei phen-blwydd yn 85 oed Rhagfyr 11. Llongyfarchiadau i chi Mrs Roberts. Gobeithio eich bod yn well ar ôl y driniaeth i'ch wyneb.

Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn yr Eglwys am 3.00 o'r gloch bnawn Sul, Rhagfyr 22. Bydd Cymun Nadolig am 11.30 p.m. Noswyl Nadolig. Croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU: Dymuniadau da i Trystan Larsen a Sioned Llwyd Dafydd ar eu dyweddïad. Llongyfarchion Fiona Jones ar ei llwyddiant yn arholiadau'r haf. Cafodd wobr arbennig am wneud mor dda yn arholiadau TAU. Llongyfarchwn Carolyn Jones ar gyrraedd ei deunaw oed.

GENI: Llongyfarchiadau i Iris ac Islwyn Williams, Cae'r Bleddyn ar enedigaeth eu mab, Iwan Griffith, ar Ragfyr 11 – brawd bach i Wena.

CLWB Y NEUADD: Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd oedd £20: Mrs Annie Williams, Meillionydd, £12: Anwen Jones, Meillionydd ac £8: Mrs G. Lewis, 6 Llys y Gwynt.

Bu'r Bwffe a drefnwyd gan Jane, Janice a Kathy yn llwyddiant mawr. Mwynhaodd y merched eu hunain yn arw, yn gloddesta ar dwrci, saladau, pasteion o bob math a fflan a hufen ffres! Pawb wedi llwyr anghofio am y caloriau! Gwnaed elw o £75 at Gronfa'r Neuadd. Diolch i chi'r genod a drefnodd y bwyd, ac i chithau'r genod am ei lowcio!

Nos Lun, Rhagfyr 23, yng Ngwesty'r Dingles, Dinas Dinlle bydd Swper Nadolig i oedolion yn unig. Pris £4.25 am gawl, twrci, sglodion, pys, pwdin a choffi. Bydd y bws yn cychwyn am **7.30 o Siop Gron**.

Y mae blwyddyn wedi gwibio heibio ers pan gychwynnwyd y Clwb Cant. Bydd angen adnewyddu'r aelodaeth ar ôl y Nadolig, 50c y mis neu £6 am y flwyddyn. Diolch am eich cefnogaeth yn 1985, a mawr hyderwn y cawn yr un gefnogaeth yn 1986.

Cynhelir Pwyllgor Cyffredinol Ionawr 29 yn Neuadd yr Eglwys am 7.00 o'r gloch. Os oes diddordeb gennych mewn Neuadd i'r Pentref, dowch i'r cyfarfod.

NOSON WASAEL: Eleni eto, cynhelir Noson Wasael, nos Iau, Rhagfyr 19, am 6.30 o'r gloch yn yr Ysgol. Bydd Arwel yno i'n harwain mewn carolau. Dowch i flasu'r Pwnsh a'r Mins Pei.

TRIP: Gadawyd y plantos yng ngofal tyner eu tad **drwy'r dydd** Sadwrn Rhagfyr 7 gan fod y rhelyw o'r mamau wedi mynd i Fanceinion i siopa. Daethom adref yn llwythog a blinderog wedi diwrnod bendigedig. Diolch yn fawr i ti Margaret am drefnu'r trip i ni.

GWELLHAD: A ninnau ar drothwy'r Nadolig, dymunwn adferiad buan i bawb sy'n cwyno.

Gwellhad buan i chi, Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt ar ôl eich triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

CYDYMDEIMLO: Ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Robert Griffith, Groeslon Isaf a'r teulu oll, ar golli ei fam oedd yn byw yn Nhregarth.

Nos Sadwrn, Tachwedd 30 syfrdanwyd y pentrefwyr gyda'r newyddion trist am farwolaeth sydyn un o gymeriadau hoff y pentref. Yn dad annwyl a charedig i dri ar ddeg o blant bu farw John William Jones, neu Johnny Willie fel yr adnabyddid ef, yn dawel yn ei gartref 8 Bryntirion, yn 75 mlwydd oed. Bu'r angladd bnawn Mercher, Rhagfyr 4 am 1.00 o'r gloch yn Eglwys y Santes Helen. Ein cydymdeimlad dwysaf â chi fel teulu.

CLWB YR HEULWEN: Ymunodd Clwb yr Heulwen hefo Clwb y Merched i ddathlu Swper Nadolig, yn y Foelas, Llanrug, nos Lun, Rhagfyr 2. Gan fod Mrs Percy Williams yn cael ei phen-blwydd y diwrnod hwnnw, gwnaeth Mrs Eluned Jones deisen iddi a chyflwynwyd blodau iddi gan yr aelodau.

Dathlodd aelod arall o'r Clwb ei phen-blwydd, Rhagfyr 9, yn 80 oed. Llongyfarchiadau i chi Mrs Clarke, Isgaer.

Dymuna Mrs Percy Williams ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion.

CLWB Y MERCHED: Nos Fawrth, Tachwedd 24 yn Neuadd yr Eglwys cafwyd tipyn o hanes Caneuon Gwerin gan Ann Ifans. Dosbarthwyd y caneuon i hwiangerddi, caneuon serch, hiraeth a.y.b., ac un neu ddwy o garolau traddodiadol. Ymunodd y merched yn y canu a gwrandawyd ar dapiau o Hogia'r Wyddfa, Lea, Plethyn, Mynediad am Ddim, Hogia'r Ddwylan, Dafydd Iwan ac hyd yn oed Eurgain Haf yn canu hwiangerdd pan oedd yn ddwy oed! Diolchwyd iddi gan Mrs Mary Davies, enillydd y raffl oedd Mrs Maggie Thomas.

DIOLCH: Y mae'r anrhegion yn dal i lifo i Mrs Rowena Williams, Llwyn Derw ar ôl iddi ymddeol fel Gofalwraig Ysgol Tan-y-coed. Dymuna ddiolch o galon i Mrs Cassie Owen, Llanberis a Miss Annie May Williams, Brynrefail am eu rhoddion. Bu'r ddwy yn athrawesau yn yr ysgol am flynyddoedd ac felly'n ffrindiau agos â Mrs Williams.

Dymuna teulu'r diweddar J.W. Jones, 8 Bryntirion ddiolch am y cardiau a'r rhoddion yn ystod ey profedigaeth.

NADOLIG LLAWEN: Anfonwn ein cofion y Nadolig hwn at Dylan Williams, Careb, sydd yn yr Almaen – Nadolig Llawen i ti Dylan.

CYD-ADDOLI: Prynhawn Sul, Rhagfyr 7 1985 cynhaliwyd Gwasanaeth Crefyddol Undebol yn y Glasgoed (Cymraeg a Saesneg). Daeth cynulleidfa dda ynghyd o aelodau pedair eglwys, Glasgoed (MC), Bosrah (A), Penisarwaun (Wesla), a'r Santes Helen (Eglwys yng Nghymru).

Pregethwyd ar y testun 'Gwyrthiau'r Nadolig Cyntaf' a Hanes Cyfansoddi'r Garol 'Dawel Nos'. Mrs E. Owen oedd yr organydd a Mrs K. Williams yn llywyddu.

**I Fethlehem y tremiwn – gu ennyd,**
**Ac yno'r ymdeithiwn,**
**O'r oer hin a'r heldrin hwn,**
**Ac Iesu yno geisiwn.**

**GLAN RHYDDALLT**

Nadolig Llawen i'r pentrefwyr oll, a gobeithiwn y bydd 1986 yn argoeli'n dda i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Lily Clarke, Isgaer, Pontrhythallt, ddiolch o galon i'w ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a galwadau a dderbyniodd ar Ragfyr 9, ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Dymuna ei chwaer, Miss Frances Williams, hefyd ddiolch yn yr un modd am y dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen-blwydd hithau yn 87 mlwydd oed ar Dachwedd 28ain.






Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
**Pat Owen a phawb yn**
**SIOP GRON**
**PENISARWAUN**
**A SWYDDFA'R POST**
**Ffôn: Llanberis 871272**
Diolch yn fawr am eich
cefnogaeth trwy gydol y flwyddyn


*Rhowch anrheg LLEOL y Nadolig hwn o weithdy crefftau*
CREFFT·ELIDIR
**SIOP AMAN Stryd Fawr**
**DEINIOLEN** *Ffôn: Llanberis 871210*
*Hefyd dewis rhagorol o Fideos i'w benthyg*
**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Gwil a'r teulu**

# CROESAIR NADOLIG




Dyma groesair gwahanol ar gyfer y Nadolig. Mae'r atebion wedi eu rhoi, eich gwaith chwi yw eu gosod yn y mannau cywir. Golyga llinell drwchus ddechrau neu ddiwedd gair. Bydd £2 o wobr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Cynigion, fel arfer, i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

Dyma'r atebion: Crud, Mair, Baban, Llety, Bugail, Iesu, Duw, Oen, Noel, Côr, Tri, Clud, Seren, Siôn Corn, Trysor, Ofn, Oer, Eira, Ne, Codi, Tref, Cael, Dof, Carol, Ef, Camle, Eco, Deuwch, Da, Yr, Nod, Ychen, Tŷ, Myrr, Afallon, Un, Nef, Graen.

**Atebion Croesair Rhagfyr**

**Ar draws:** 1. Gota neu gwta, 7 a 21. Dros Fy Sbectol. 8. Ydfa. 10. Nia. 11 a 20. William Jones. 12. Adda. 13. Annog. 17 ac 1. Torri Gwynt. 19. Byw. 22. Tua. 23. Iawn. 25. Neilon. 26. Tras.

**I Lawr:** 2. Taf. 3. Arolwg. 4. Yswirio. 5. Llyn Mawr. 7. Gwamal. 9. Awen. 14. Niwsans. 15. Oblegid. 16. Abatai,.

**Enillydd:** "Cyfaill o'r Nant".

# LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Rixon Bucknall (Addaswyd gan Wyn G. Roberts). **Trenau**. Macdonald (CBAC) £5.50.
Cyfrol liwgar yn cynnwys y ffeithiau diweddaraf am drenau – ddoe, heddiw ac yfory.

CYFRES HWYL GYDA'R GEIRIAU gan Islwyn Iago. Rhif 15. Ogof Iago. 65c.
Llyfr o bosau geiriol ac atebion.

CYFRES SMOT. Eric Hill (Addaswyd gan Dilwen M. Evans). **Smot ar Lan y Môr.** Gwasg Gomer. £3.25.
Rhagor o anturiaethau Smot, y ci bach drwg sy'n ffefryn gan bawb.

CYFRES Y LLWYFAN: **Gormod o Bwdin** gan Ian Gruffydd. **Mis Mêl** gan Gillian Morris. **Salŵn Sal** gan Nansi Pritchard. Gwasg Carreg Gwalch, 60c yr un.
Tair drama newydd sbon yng Nghyfres y Llwyfan.

**Gyda'r Ifanc** gan Alice Evans. Tŷ John Penry. £3.00.
Cyfrol sy'n cynnwys deunydd cynnal oedfa i blant a phobl ifainc.

MERCHED TANGNEFEDD (S.A.), 85c. MOLIANNWN (T.T.B.), 75c. SNWCER I MI (S.A.), 75c. Cwmni Cyhoeddi Gwynn.
Tair cân ar gyfer lleisiau a phiano.

**Dysgu Plant** – William David Parry. Cyhoeddiadau Bywyd Newydd. £1.25.
Awgrymiadau i bregethwyr a lleygwyr ar sut i gyflwyno stori grefyddol i gynulleidfa o blant.

**Doctor Pen y Bryn** – Guto Roberts. Cyhoeddiadau Mei. £2.30.
Hanes bywyd Owen Elias Owen, Llawfeddyg Ymgynghorol yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

WRTH Y PRESEB: Gwasg Pantycelyn. £2.75.
Llyfr o garolau Nadolig newydd a thraddodiadol i blant.

**Tynged yr Iaith** – gan Saunders Lewis. Cymdeithas yr iaith Gymraeg, 90c.
Argraffiad newydd o'r ddarlith radio a draddodwyd ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

**Lois** gan Elizabeth Watkin Jones (Addaswyd gan Hugh D. Jones). Gwasg Gomer. £2.25.
Nofel hanesyddol i blant.

AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU
neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

**BRYN**

**LLANBERIS 870793**

**B & K WILLIAMS**
**TANRALLT**
**CWM-Y-GLO**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

# DYDDIADUR

**RHAGFYR:**

19, Iau: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfai.
LLANBERIS: Bingo Arbennig a Bwyd yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.
CWM-Y-GLO: Cinio Nadolig i Oedolion a Phensiynwyr yn y Ganolfan am 6.00.
DINORWIG: Y Gymdeithas Undebol – Gwasanaeth Carolau dan ofal Mrs Annette Bryn Parri a Miss Olwen Bryn Roberts.
20, Gwener: LLANBERIS: Noson o Garolau 'Pwnsh a Pei' yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
PENISARWAUN: Te Parti Nadolig plant Ysgolion Sul Bosra ac Eglwys y Santes Helen.
WAUNFAWR: Noson o Garolau, Paned a Mins Pei gydag ymweliad gan Siôn Corn yn y Ganolfan am 6.00.
PENISARWAUN: Gyrfa Chwist y Nadolig yn Neuadd yr Eglwys am 7.30.
22, Sul: LLANRUG: Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10 a.m. yn y Capel Mawr.
Gwasanaeth Carolau Y Gymdeithas Lenyddol am 5.30.
BRYNREFAIL: Gwasanaeth Nadolig y Plant a'r Bobl Ifanc am 2.00 yng Nghapel Brynrefail.
Gwasanaeth Carolau am 5,30,
PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig y Plant am 10 a.m. yng Nghapel Bosra.
Gwasanaeth Naw Llith a Charol am 3.00 yn yr Eglwys.
23, Llun: PENISARWAUN: Swper Nadolig Clwb y Neuadd yng Ngwesty'r 'Dingles', Dinas Dinlle.
LLANBERIS: Noson 'Carol a Chawl' yn Festri Capel Coch am 7,.00 – eitemau gan y bobl ifanc. Yr elw er budd Cronfa Apêl Sganiwr.
24, Mawrth: PENISARWAUN: Cymun Nadolig yr Eglwys am 11.30 p.m.
LLANRUG: Gwasanaeth Noswyl yng Nghapel Hermon am 6.30.
30, Llun: PENISARWAUN: Ymweliad yr Urdd â Theatr Gwynedd i weld Pantomeim 'Go Fflamia'.

**IONAWR 1986**

2, Iau: WAUNFAWR: Parti'r Flwyddyn Newydd Sefydliad y Merched yng Ngwesty'r Gwynedd, Llanberis.
3, Gwener: YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty'r Gwynedd pryd y ceir anerchiad gan Mr John H. Hughes, Llanberis.
6, Llun: YR ARDAL: Yr ysgolion yn ail-agor.
9, Iau: CWM Y GLO: Cinio Blynyddol Undeb y Mamau yn y Foelas, Llanrug.
LLANRUG: Noson Gymdeithasol dan nawdd Cangen Plaid Cymru yng nghwmni Mr Dafydd Wigley, AS, yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.
BETHEL: Clwb y Rhos.
DINORWIG: Y Gymdeithas Undebol – Cwrdd Gweddi dan ofal Miss Elen W. Jones yn y Capel.
10, Gwener: BETHEL: Aelodau'r Urdd yn ymweld â'r Pantomeim 'Go Fflamia' yn Theatr Gwynedd.
LLANBERIS: Te yr Henoed.
12, Sul: DEINIOLEN: Pwyllgor Blynyddol y Seindorf am 7.00.
13, Llun: DEINIOLEN: Sefydliad y Merched.
WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol – 'Seiat Holi' yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mr Iolo Huws-Roberts.

15, Mercher: YR ARDAL: Cymdeithas Hanes Bro'r Eco yng Nghanolfan Ysgol Cwm-y-glo.
23, Iau: WAUNFAWR: Merched y Wawr – Sleidiau ar 'Adar y Gaeaf' gan Mr Duncan Brown.
24, Gwener: LLANBERIS: Te yr Henoed.
29, Mercher: PENISARWAUN: Pwyllgor Cyffredinol Clwb y Neuadd am 7.00 yn Neuadd yr Eglwys.

*(Parhad o'r dud. gefn)*

oddi ar Awdurdod Dŵr Cymru gan Gyngor Sir Gwynedd.

Mae gobaith i gynnal cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis yn gynnar yn y flwyddyn newydd, a fydd hefyd yn Gyfarfod Blynyddol cyntaf y Clwb. Hyd hynny, mae gwaith yr ysgrifennydd yn cael ei gynnal gan Pat Sellers, Blue Peris, Dinorwig.

Os oes unrhyw un (dros 12 oed) â diddordeb mewn rasus rhwyfo, yna cysyllter â Lawrie Griffith, Llanberis neu'r ysgrifennydd.

## LLANBERIS (Atodiad)

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mrs Michael, gynt o Ffordd Capel Coch, ar farwolaeth sydyn ei mab, Gwynedd ym Mhorthmadog.

LLONGYFARCHIADAU:
– I Mr a Mrs Gwilym Evans, Tŷ Crwn, ar enedigaeth mab bach, Dylan.
– I Mr a Mrs A. Lambrecht, 65 Maes Padarn ar ddathlu eu priodas Ruddem ar Ragfyr 12.
– I Arwel Hughes, 1 Stryd Ianci ar ennill Cwpan mewn Sioe Adar a gynhaliwyd ym Mhenrhosgarnedd, Bangor.

## SIBRYDION O YSGOL BRYNREFAIL

**Mae'r Sibrydion eraill, am lwyddiannau'r ysgol ar y tudalennau canol.**

PARTI YM MHENDALAR: Estynnwyd gwahoddiad i'r chweched dosbarth yn Ysgol Brynrefail i ymuno ym mharti Nadolig Ysgol Pendalar ar Ragfyr 11.

Hoffai disgyblion y chweched dosbarth ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at y gweithgareddau noddedig a gynhaliwyd i gasglu arian ar gyfer parti i ddisgyblion Ysgol Pendalar. Llwyddwyd i gael anrhegion gwerth chweil i bob disgybl yn yr ysgol,

## AT BLANT A RHIENI LLANRUG

Ydach chi yn naw oed neu drosodd ac yn berchen beic? Oes gan dad neu mam feic? Beth am gymryd rhan mewn

**TAITH BEICIO NODDEDIG**

o gwmpas y pentref i godi arian at yr Urdd. Ceir ffurflenni noddi a manylion pellach am y daith sydd i'w chynnal am 10.00 o'r gloch

**FORE SADWRN IONAWR 18fed**

gan Margaret Parry, Bro Dawel, Llanrug

**Rhaid i bob plentyn fod yng ngofal oedolyn**

**BOBL LLANRUG – Cefnogwch yr Urdd drwy gefnogi'r beicwyr**

# CHWARAEON

## Y GOLOFN SNWCER

### gan Aeron Jones

**Gyda bron hanner y tymor wedi mynd mae tîm Gleision Llanrug yn dal ar frig Adran A, hefyd mae tîm Cochion Llanrug ar y blaen yn Adran B.**

**Yn Adran A mae Duon Deiniolen yn araf yn disgyn i lawr yr adran ar ôl iddynt gael dechrau da.**

Yn yr ail adran mae timau Bethel yn gwella fel mae'r tymor yn mynd ymlaen, gyda thîm Duon Bethel wedi curo dau dîm anodd y mis hwn sef Cochion Llanrug a Gleision Deiniolen. Ar y ffordd i fyny mae Cochion Deiniolen gan guro tair gêm yn olynol.

Cafwyd sioc yn y gynghrair y mis hwn pan gurodd tîm Llanberis, sydd yn yr ail adran, dîm sy'n drydedd yn Adran A yng Nghwpan Pattison. Pob lwc i Lanberis yn y rownd gyn-derfynol.

**CANLYNIADAU MIS TACHWEDD**

**ADRAN A**

**Gleision Llanrug:**
4:2 Duon Porthaethwy
4:2 Duon Crosville Caernarfon
1:5 Duon Nantlle
4:2 Ceidwadwyr Felinheli (Duon)
5:1 Duon Deiniolen

**Duon Deiniolen**
3:3 Ceidwadwyr C'fon (Duon)
5:1 Duon Porthaethwy
2:4 Duon Crosville C'fon
2:4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Duon)
1:5 Gleision Llanrug

**ADRAN B**

**Cochion Llanrug:**
2:4 Duon Bethel
4:2 Cochion Bethesda
5:1 Nantlle Gwyrdd
3:3 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)
4:2 Gleision Deiniolen

**Gleision Deiniolen:**
2:4 Llanberis
1:5 Duon Bethel
3:3 Cochion Bethesda
2:4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)
2:4 Cochion Llanrug

**Cochion Deiniolen:**
6:0 Duon Llanfair P.G.
4:2 Gleision Bethel
4:2 Duon Bethesda
2:4 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)
3:3 Cochion Marbryn

**Llanberis:**
4:2 Gleision Deiniolen
2:4 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)
2:4 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)
3:3 Cochion Bethesda
3:3 Nantlle Gwyrdd

**Duon Bethel**
0:6 Clwb Cymdeithasol Bangor (Gleision)
4:2 Cochion Llanrug
5:1 Gleision Deiniolen
3:3 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)
2:4 Nantlle Gwyrdd
2:4 Cochion Bethesda

**Gleision:**
2:4 Cochion Deiniolen
3:3 Cochion Groeslon
2:4 Nantlle Brown
3:3 Duon Bethesda

## Y GYNGHRAIR

| | Ch | En | Cyf | Coll | OBI | YnEr | +/− | Pt |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ADRAN A** | | | | | | | | |
| Gls Llanrug | 13 | 11 | 0 | 2 | 51 | 27 | +24 | 22 |
| D. D'iolen | 12 | 6 | 2 | 4 | 49 | 35 | +14 | 14 |
| **ADRAN B** | | | | | | | | |
| C. Llanrug | 13 | 9 | 3 | 1 | 53 | 25 | +28 | 21 |
| C. D'iolen | 13 | 7 | 1 | 5 | 44 | 34 | +10 | 15 |
| Llanberis | 13 | 5 | 3 | 5 | 41 | 37 | +4 | 13 |
| D. Bethel | 13 | 5 | 2 | 6 | 47 | 49 | -2 | 12 |
| Gl. D'iolen | 13 | 4 | 4 | 5 | 39 | 45 | -6 | 12 |
| Gl.Bethel | 12 | 3 | 4 | 5 | 33 | 39 | -6 | 10 |






## RAS HWYL Y NADOLIG – O AMGYLCH LLYN PADARN

Ar fore Sul, Rhagfyr 22ain, bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal Ras Hwyl i redwyr a cherddwyr o amgylch Llyn Padarn. Bydd y ras hwyl yn cychwyn o Westy'r Victoria, Llanberis am chwarter i unarddeg y bore, gan ddilyn y llwybr heibio i gefn hen Ysbyty'r Chwarel a thrwy'r coed i ffordd Fachwen. Yna, dilynir y ffordd (mae ar hyn o bryd ar gau i drafnidiaeth, ac felly'n eithaf diogel) i lawr hyd Ben-y-llyn, a dilyn yr hen ffordd heibio i Graig yr Undeb at y twnnel. Mae'r daith yn ôl i Lanberis yn dilyn cwrs yr hen reilffordd. Mae'r pellter tua pedair milltir a hanner.

Yn dilyn y rhedeg neu'r cerdded bydd cawl a mins pei i bawb yn y Vic. – a thystysgrif i brofi eich bod wedi cwblhau'r cwrs! Mae'r Clwb yn estyn gwahoddiad i bawb sy'n dymuno ymuno'n yr hwyl. Deallwn fod Siôn Corn ei hun yn rhedeg, ac y mae siawns i ennill twrci mewn raffl. Pris i unigolion fydd £1. Gellir talu ar y diwrnod.



## CYMERIADAU OD O FYD CHWARAEON

**MAEN NHW'N deud fod y byd yn llawn o gymeriadau od, ond fuoch chi'n meddwl erioed faint ohonynt oedd â diddordeb byw ym myd chwaraeon? Bellach mae casgliad wedi ei wneud o'r bobl od hyn a disgrifiadau byw o'u hynodrwydd. Os oes gennych ddiddordeb ym mhob math o chwaraeon, a hefyd mewn digwyddiadau anghyffredin a chymeriadau 'rhyfedd', yna y llyfr i chwi ei brynu ar gyfer yr hosan Nadolig yw "Sporting Eccentrics" (Cyhoeddwyd gan W.H. Allen a'i bris yw £7.95). Dyma dameidiau i aros pryd.**

Trefnwyd gêm griced anghyffredin iawn gan Frederick, mab hynaf George II rhwng timau Surrey a Middlesex. Roedd pob un o'r chwaraewyr ar gefn ceffylau! Sgoriodd Surrey 95 o rediadau (neu garlamiadau) ond yr oedd Middlesex i gyd allan am 72 rhediad. Ni chofnodwyd os oedd rhywrai allan coes o flaen (lbw).

Chwaraewr pêl-droed a ddaeth i enwogrwydd yn weddol ddiweddar oedd Mike Bagley o Bristol. Cosbwyd ef gan y reffari am regi ar y cae, ond bu Mike yn rhy chwimwth iddo. Cipiodd y llyfr bach du oddi ar y ref, a'i fwyta fel na allai gofnodi ei enw!

Dylai unrhyw Roegwr fod yn falch o allu rhedeg Marathon, ond nid felly rhedwr anghyffredin iawn a gwblhaodd farathon mewn saith awr a 33 munud ac yntau'n 98 oed (ie, naw deg ac wyth!). Roedd y creadur hwnnw mewn tymer flin iawn oherwydd iddo redeg marathon awr ynghynt pan oedd yn 96 oed!

Roedd Wyatt Earp yn enwog fel un o gymeriadau lliwgar y Gorllewin Gwyllt, ond ychydig a wyddai ei fod yn ddyfarnwr gornestau bocsio hefyd. Roedd bob amser yn gwisgo pâr o ynnau yn y cylch bocsio, a bu'n rhaid iddo eu defnyddio unwaith mewn gornest yn y National Athletic Club yn San Francisco pan drôdd y gynulleidfa yn fygythiol oherwydd y dyfarniad mewn un gornest arbennig.

Sawl gwaith y bydd timau yn defnyddio cadair freichiau gyffyrddus i chwarae criced? Bob tro y byddai David Haris yn chwarae. Ef oedd bowliwr Hampshire ar un cyfnod, ond erbyn diwedd ei yrfa, roedd yn dioddef cymaint o'r glunwst fel bod yn rhaid iddo eistedd i lawr ar ôl pob pelawd. Gosodwyd y gadair y tu ôl i'r wiced!

Nofiwr un goes oedd Charles Zibelman a geisiodd nofio o Loegr i Ffrainc yn 1933 ac ysmygu 50 o sigârs yr un pryd! Bu'n rhaid iddo roi'r gorau iddi ar ôl deuddeng awr o nofio oherwydd i 'jellyfish' ei frathu yn ei wefus.

Un o'r cymeriadau mwyaf od yn y llyfr yw'r Dr E.M. Grace, brawd yr enwocach W.G. Dywedir iddo unwaith sgorio cant ac yntau'n batio efo coes brwsh llawr! Dro arall, gwrthododd adael y maes pan gafodd alwad i gwêst: anfonodd deligram yn gofyn i'r awdurdodau roi'r corff i'w gadw mewn rhew.

Dyna rai o'r cymeriadau y croniclir eu hanesion difyr yn y llyfr, ond tybed nad oes cymeriadau yr un mor ddiddorol yn ein hardal ni ein hunain? Glywsoch chi am gymeriad adnabyddus heb fod yn rhy bell o fro'r 'Eco' a berswadiwyd i rwbio Bostik ar goesau un o chwaraewyr pêl-droed tîm ...? Fe fydd y stori honno'n glynu wrtho am byth!

Wyddoch chi am gymeriad od ym myd chwaraeon o'r ardal hon? Ydych chi'n cofio digwyddiad anghyffredin mewn gêm neu gystadleuaeth? Beth am ei hanfon i'r 'Eco'. Efallai y cawn ninnau gasglu 'oriel anfarwolion' o gymeriadau od y fro hon.

## CLWB RHWYFO LLANBERIS

**Efallai i rai ohonoch sylwi ar gychod rhwyfo tebyg i'r rhai a ddefnyddir yn y ras flynyddol rhwng Rhydychen a Chaergaint os buoch ar lannau Llyn Padarn tua'r un ar ddeg o'r gloch ar foreau Sadwrn a Sul yn ddiweddar. Cychod rhwyfo i bedwar ydynt gyda lle i un arall eu harwain (coxed fours). Mae dau o gychod o'r fath ar Lyn Padarn bellach, a rhoddwyd hwy ar fenthyg am flwyddyn i Glwb Rhwyfo Llanberis gan Gymdeithas Rhwyfo Amatur Cymru (W.A.R.A.). Ar wahân i Glwb Rhwyfo'r Brifysgol ym Mangor, dyma'r Clwb Rhwyfo cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru.**

Bu'r 'Eco' yn holi Mr Lawrie Griffith, Gwesty Dolafon, Llanberis, sefydlydd a hyfforddwr y Clwb. Dywedodd fod y ddau gwch wedi eu rhoi ar fenthyg am flwyddyn er mwyn ceisio ennyn diddordeb yn y math hwn o gystadlu yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd, mae tuag ugain o bobl wedi dangos diddordeb (gan gynnwys pedair o ferched) a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd ar foreau Sadwrn a Sul os bydd y tywydd yn caniatau. Ar hyn o bryd, dysgu'r dechneg o rwyfo yw'r gwaith anoddaf. Mae rhwyfo cystadleuol fel hyn yn gofyn am dechneg hollol wahanol i rwyfo cwch rhwyfo arferol. Os bydd y Clwb yn ffynnu ar ddiwedd y flwyddyn "fenthyg" yna byddant yn cael cynnig prynu'r cychod.

Ar hyn o bryd mae'r Clwb yn cael benthyg cwt cychod ar afon y Bala sydd ym meddiant y Cyngor Sir a'r gobaith yw y bydd y Clwb yn cael sefydlu eu canolfan yno os bydd eiddo y rhan hon o Lyn Padarn yn cael ei brynu

*Parhad ar dudalen 25*